# Ardaloedd Twf Lleol Powys
# Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

3 Gorffennaf 2012

Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

## Cynnwys


| Adran | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Crynodeb Gweithredol** | 3 |
| **1** | **Cyflwyniad**<br>• Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys<br>• Diben y Grŵp<br>• Methodoleg<br>• Diben yr Adroddiad | 7 |
| **2** | **Cyd-destun**<br>• Sir Powys<br>• Busnesau Bach a Microfusnesau ym Mhowys<br>• Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau<br>• Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes<br>• Y Cyd-destun Cynllunio | 9 |
| **3** | **Cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol**<br>• Cysyniad<br>• Lleoliadau<br>• Dulliau Datblygu ac Ysgogiadau Polisi | 14 |
| **4** | **Cynigion Ychwanegol ar gyfer y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu**<br>• Problemau sy'n wynebu canol trefi<br>• Cynigion ar gyfer pob un o'r tair tref<br>• Cynigion sy'n benodol i'r Drenewydd<br>• Cynigion sy'n benodol i Landrindod<br>• Cynigion sy'n benodol i Aberhonddu | 26 |
| **5** | **Casgliadau** | 34 |
| **Atodiad 1** | **Argymhellion** | 35 |
| **Atodiad 2** | **Cyfranwyr at y cais am dystiolaeth** | 40 |
| **Atodiad 3** | **Adroddiadau perthnasol diweddar** | 42 |

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cefndir

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys (y Grŵp) ac fe'i cyflwynir i'r Gweinidog Busnes, Menter, Gwyddoniaeth a Thechnoleg i'w ystyried. Mae aelodau'r grŵp fel a ganlyn:

- Justin Baird-Murray - Rheolwr Gyfarwyddwr a pherchennog Gwesty'r Metropole yn Llandrindod (Cadeirydd y Grŵp)
- Janet Jones – Ffederasiwn Busnesau Bach
- Hannah Barrett – Cadeirydd Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
- James Gibson-Watt – Dyn busnes a manwerthwr lleol
- John Gallagher – Control Techniques Ltd
- Wynne Jones – dyn busnes ac aelod o Gyngor Sir Powys
- Sue Balsom – aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau a chanddi rôl gynghori o ran gwaith y Grŵp Ardaloedd Twf Lleol

Ar 31 Ionawr 2012, gwnaeth y Gweinidog Ddatganiad Llafar gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am Ardaloedd Menter yng Nghymru. Fel rhan o'r Datganiad hwnnw, amlinellodd y Gweinidog y cynnig arloesol a gafwyd gan Gyngor Sir Powys ar gyfer ardaloedd twf lleol.

Ar 1 Mawrth 2012, cyhoeddodd y Gweinidog drwy Ddatganiad Ysgrifenedig y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen byrdymor i ystyried y model hwn fel dull amgen o ymdrin ag Ardaloedd Menter.

Pennwyd cylch gorchwyl eang ei gwmpas ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ond cytunodd y dylai ganolbwyntio ar y canlynol:

> (a) ystyried addasrwydd Ardaloedd Twf Lleol ar gyfer Powys drwy ddatblygu'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys ymhellach fel dull amgen o ymdrin ag Ardaloedd Menter
>
> (b) edrych ar y materion penodol sy'n effeithio ar drefi marchnad allweddol Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd.

Fel rhan o'r cylch gwaith hwn, ystyriodd y Grŵp yr opsiynau polisi i hybu a chynnal swyddi a thwf economaidd a chynnig cyfle i brofi gwahanol fathau o ymyriadau sy'n sensitif i amgylchiadau economaidd lleol Powys a'r heriau sy'n ei hwynebu o ran twf.

Cyfarfu'r grŵp saith gwaith rhwng dechrau mis Mawrth a diwedd mis Mehefin 2012 a chyhoeddwyd cais am dystiolaeth a oedd yn ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid rhwng 4 Mai 2012 a 1 Mehefin 2012. Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion a ystyriwyd wrth lunio'r adroddiad hwn.

### 2. Sir Powys

Mae economi Powys yn seiliedig yn bennaf ar nifer fawr o ficrofusnesau amrywiol ac mae amaethyddiaeth a thwristiaeth yn sectorau allweddol. Mae'r economi wedi arallgyfeirio

dros nifer o flynyddoedd ond mae angen gwneud ymdrechion pellach am fod CMC ac enillion yn dal i fod gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU. Mae swyddi yn y sector cyhoeddus yn aml yn bwysig mewn llawer o ardaloedd gwledig ac mae cyflogwyr mwy o faint yn y sector preifat yn cyfrannu llai at yr economi na'r cyfartaledd. Mae lefelau hunangyflogaeth yn uchel o gymharu â Chymru a'r DU.

Nodweddir y patrwm anheddu ar gyfer rhan helaeth o Bowys gan drefi marchnad a phentrefi bach a gwasgaredig. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn brin ac yn dameidiog a cheir preifat yw'r unig opsiwn i lawer o bobl. Mae angen gwella'r seilwaith TGCh er mwyn sicrhau gwasanaethau dibynadwy ac effeithlon. Mae Powys yn cynnig bywyd o ansawdd uchel o safbwynt yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

## 3. Ardaloedd Twf Lleol

Nododd ystyriaeth y Grŵp o'r dystiolaeth a'r ymchwil a gasglwyd drwy gydol y broses hon fod angen canolbwyntio adnoddau ac ymyriadau yn ddaearyddol. Felly, mae'r Grŵp yn cynnig y dylid canolbwyntio Ardaloedd Twf Lleol ar ardaloedd sydd yn y coridor twf canolog fel y'i nodir yn y strategaeth a ffefrir ar gyfer CDLl Powys sy'n datblygu. Y pedair ardal a ddewiswyd yw:

- Dyffryn Hafren (Y Trallwng / y Drenewydd / Llanidloes)
- Rhaeadr Gwy / Llandrindod / Llanfair-ym-Muallt
- Aberhonddu / Bronllys / Talgarth
- Ystradgynlais

Cytunwyd ar y canlynol fel y dulliau datblygu ac ysgogiadau polisi allweddol posibl ar gyfer yr Ardaloedd Twf Lleol ym Mhowys:

- Band eang cyflym a WiFi
- Signal ffonau symudol cyson a gwasanaethau 3G / 4G
- Seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd o ansawdd uchel
- Datblygu eiddo masnachol sy'n diwallu anghenion busnesau brodorol a busnesau sy'n dod i mewn
- System gynllunio sy'n galluogi ac yn hwyluso twf economaidd a gwaith datblygu priodol
- Mentrau adfywio a arweinir gan dreftadaeth sy'n canolbwyntio ar ganol trefi hanesyddol allweddol
- Darparu hyfforddiant a sgiliau sy'n cyd-fynd yn agosach ag anghenion busnesau
- Rhyddhad ardrethi busnes wedi'i dargedu at ardaloedd penodol
- Cymorth ac arian i fusnesau sy'n diwallu anghenion microfusnesau a busnesau bach
- Cyflenwad a seilwaith ynni sy'n addas at y diben
- Defnydd effeithiol o arian yr UE i helpu busnesau i ddatblygu, creu swyddi a sicrhau twf
- Datblygu'r hyn y mae'r sir yn ei gynnig i dwristiaid

Ceir manylion pellach am bob un o'r uchod yn adran 3 o'r ddogfen hon.

## 4. Canol y tair tref

Yn ogystal â datblygu cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol, roedd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am ddatblygu syniadau ychwanegol i sicrhau hyfywedd economaidd y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu. Mae pob un o'r trefi hyn yn un o'r Ardaloedd Twf Lleol ond bydd mesurau ychwanegol yn atgyfnerthu ymhellach eu rolau a'u hyfywedd yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn awgrymu y dylid sefydlu menter a arweinir gan fusnesau ym mhob un o'r tair tref hyn er mwyn datblygu a gweithredu amrywiaeth o brosiectau fel y'u nodwyd gan fusnesau a thrigolion y trefi hynny, sy'n canolbwyntio ar hybu ffyniant economaidd. Mae pob un o'r tair tref yn wahanol a bydd angen iddynt ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol gwahanol. Gallai'r prosiectau hyn gynnwys mesurau megis datblygu cynlluniau canol trefi, cefnogi hyrwyddwyr lleol, rhoi cynlluniau parcio am ddim ar waith a'i gwneud yn haws i newid y defnydd a wneir o eiddo allweddol.

Rhanddeiliaid lleol a fyddai'n penderfynu ar union natur y prosiectau ym mhob un o'r tair tref. Fodd bynnag, mae'r Grŵp o'r farn y gallai'r themâu canlynol fod yn briodol i bob tref:

- y Drenewydd i ddatblygu ymhellach fel canolfan wasanaethu ac fel canolfan ar gyfer dysgu sy'n canolbwyntio ar fusnes.
- Llandrindod i adeiladu ar ei rôl fel canolfan digwyddiadau a chynadledda a'i rôl fel canolfan twristiaeth treftadaeth.
- Aberhonddu i ddatblygu ymhellach ei rôl fel canolfan twristiaeth awyr agored a'i rôl fel canolfan siopa arbenigol / siopau bwtîg.

Ceir manylion pellach am y syniadau ar gyfer pob tref yn adran 4 o'r adroddiad hwn.

## 5. Argymhellion

Mae'r Grŵp yn gwneud dau argymhelliad cyffredinol i'r Gweinidog. Ategir y ddau argymhelliad cyffredinol hyn gan argymhellion dilynol sy'n fanylach ac yn gysylltiedig â hwy.

Crynhoir y ddau argymhelliad cyffredinol, ynghyd â'r argymhellion manwl, ar y tudalennau canlynol.

Ceir testun llawn yr holl argymhellion yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

### Argymhelliad Un

**Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod y cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol yn berthnasol i Bowys fel model amgen yn lle Ardaloedd Menter i helpu i hybu a chynnal swyddi a thwf yn y sir. Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried bod y canlynol yn allweddol mewn Ardaloedd Twf Lleol.**

Seilwaith

- Darparu gwasanaeth band eang cynhwysfawr fel rhan o gam cyntaf y broses o gyflwyno prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf
- Sicrhau y darperir gwell seilwaith ar gyfer teleffoni symudol
- Datblygu prosiectau seilwaith allweddol, megis ffordd osgoi'r Drenewydd, fel mater o flaenoriaeth

- Y sector cyhoeddus i ddarparu tir a safleoedd busnes priodol, am nad yw'r sector preifat yn eu darparu mewn rhan helaeth o'r ardal
- Gweithio gyda chyflenwyr ynni i sicrhau y caiff y seilwaith ynni yn y sir ei wella'n briodol

Cynllunio

- Symleiddio'r system gynllunio er mwyn helpu i hwyluso gwaith datblygu fel y bo'n briodol, drwy fesurau megis Gorchmynion Datblygu Lleol, ac adolygu trefniadau cynllunio cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi adfywio a thwf economaidd

Cymorth i Fusnesau a Sgiliau

- Blaenoriaethu cymorth ariannol Llywodraeth Cymru a chymorth ariannol arall gan y sector cyhoeddus sydd wedi'i anelu at hybu swyddi a thwf mewn Ardaloedd Twf Lleol ym Mhowys
- Sicrhau bod arian ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau wedi'i anelu at ddiwallu anghenion busnesau a bod natur wledig y sir a'i phoblogaeth isel yn cael eu hystyried wrth wneud trefniadau ar gyfer cyflawni hynny
- Sicrhau bod ymgyrch barhaus i farchnata'r rhanbarth fel lleoliad ar gyfer twf busnesau newydd a brodorol
- Datblygu cyfleoedd twristiaeth ymhellach yn y sir

Dynodi'r ardal yn y dyfodol

- Ystyried y dynodiad a roddir i Bowys gan yr UE yn y dyfodol ar ôl 2020
- Ystyried sefyllfa'r sir yn yr adolygiad arfaethedig o'r map o ardaloedd a gynorthwyir

**<u>Argymhelliad Dau</u>**

**Mae'r Grŵp Gorffen a Gorchwyl yn cydnabod bod canol llawer o drefi yn wynebu bygythiad sylweddol ac yr ystyrir eu bod yn dirywio. Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu mentrau a arweinir gan fusnesau, ym mhob un o'r tair tref, sef y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu, er mwyn llunio cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a phartneriaid eraill. Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried y dulliau canlynol o weithredu ar gyfer pob tref:**

- Datblygu rôl canol tref y Drenewydd fel canolfan ar gyfer gwasanaethau, busnes, addysg a chyflogaeth.
- Asesu model Hwyluso Menter Ernesto Sirolli er mwyn penderfynu a yw'n gymwys i'r Drenewydd
- Datblygu rôl Llandrindod fel canolfan digwyddiadau a chynadledda
- Atgyfnerthu rôl Llandrindod fel canolfan twristiaeth treftadaeth
- Datblygu rôl Aberhonddu fel canolfan i dwristiaid, gan adeiladu ar gyfleoedd twristiaeth awyr agored a'r hyn y mae'r dref yn ei gynnig o ran twristiaeth treftadaeth a'r celfyddydau a diwylliant
- Datblygu rôl Aberhonddu fel lleoliad siopa, gan adeiladu'n benodol ar yr hyn y mae'r dref yn ei gynnig o ran siopau arbenigol / siopau bwtîg

## 1. Cyflwyniad

### Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys (y Grŵp) ac fe'i cyflwynir i'r Gweinidog i'w ystyried. Mae'n adeiladu ar yr adroddiad interim a gyflwynwyd i'r Gweinidog ym mis Ebrill 2012.

Dewiswyd aelodau'r Grŵp er mwyn adlewyrchu a dangos arbenigedd ym meysydd penodol busnesau yn y sector preifat, datblygu ac adfywio economaidd yng nghefn gwlad a busnesau mewn sectorau allweddol megis gweithgynhyrchu, twristiaeth a manwerthu. Mae aelodau'r grŵp fel a ganlyn:

- Justin Baird-Murray – Rheolwr Gyfarwyddwr a pherchennog Gwesty'r Metropole yn Llandrindod (Cadeirydd y Grŵp)
- Janet Jones – Ffederasiwn Busnesau Bach
- Hannah Barrett – Cadeirydd Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
- James Gibson-Watt – Dyn busnes lleol a manwerthwr
- John Gallagher – Control Techniques Ltd
- Wynne Jones – dyn busnes ac aelod o Gyngor Sir Powys
- Sue Balsom – aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau a chanddi rôl gynghori o ran gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol

### Diben y Grŵp

Ar 31 Ionawr 2012, gwnaeth y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Ddatganiad Llafar gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am Ardaloedd Menter yng Nghymru. Fel rhan o'r Datganiad hwnnw, amlinellodd y Gweinidog y cynnig arloesol a gafwyd gan Gyngor Sir Powys ar gyfer ardaloedd twf lleol.

Ar 1 Mawrth 2012, cyhoeddodd y Gweinidog drwy Ddatganiad Ysgrifenedig y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen byrdymor i ystyried y model hwn fel dull amgen o ymdrin ag Ardaloedd Menter.

Pennwyd cylch gorchwyl eang ei gwmpas ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ond cytunodd y dylai ganolbwyntio ar y canlynol:

(a) ystyried addasrwydd Ardaloedd Twf Lleol ar gyfer Powys drwy ddatblygu'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys ymhellach fel dull amgen o ymdrin ag Ardaloedd Menter

(b) edrych ar y materion penodol sy'n effeithio ar drefi marchnad allweddol Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd.

Nod y Grŵp oedd paratoi adroddiad i'r Gweinidog, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

a) ystyried anghenion busnesau bach, gan ystyried argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhyddhad Ardrethi Busnes;

b) ystyried y materion penodol sy'n ymwneud â'r sector manwerthu yn ogystal â'r heriau ehangach sy'n effeithio ar drefi marchnad allweddol Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt;

c) asesu gofynion y Sir o ran seilwaith economaidd, gan gynnwys gofod cyflogaeth, band eang a thechnoleg symudol er mwyn cynyddu cyflogaeth, proffidioldeb a chynaliadwyedd busnesau ym Mhowys er mwyn helpu i ddatblygu mentrau, denu mewnfuddsoddiad a hybu twristiaeth;

ch) ystyried pa mor briodol yw ysgogiadau polisi ehangach megis cynllunio syml, sgiliau a hyfforddiant a all ddiwallu anghenion a manteisio ar gyfleoedd;

d) gwneud argymhellion ar bob un o'r uchod, a fydd yn cynnwys pecyn o fesurau a fyddai'n sicrhau twf economaidd gwirioneddol a chreu swyddi cynaliadwy, ychwanegol.

Fel rhan o'r cylch gwaith hwn, ystyriodd y Grŵp yr opsiynau polisi i hybu a chynnal swyddi a thwf economaidd a chynnig cyfle i brofi gwahanol fathau o ymyriadau sy'n sensitif i amgylchiadau economaidd Powys a'r heriau sy'n ei hwynebu o ran twf.

## Methodoleg

Cyfarfu'r grŵp saith gwaith rhwng dechrau mis Mawrth a diwedd mis Mehefin 2012. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn i drafod opsiynau, clywed gan siaradwyr arbenigol ac ystyried arfer gorau o fannau eraill.

Roedd gwrando ar sylwadau, barn a syniadau gan amrywiaeth eang o randdeiliaid hefyd yn hanfodol i waith y Grŵp a chyhoeddwyd cais am dystiolaeth yn ceisio barn unigolion rhwng 4 Mai 2012 a 1 Mehefin 2012. Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cynigion ar gyfer ardaloedd twf lleol. Ystyriwyd pob un o'r ymatebion hyn wrth lunio'r adroddiad hwn. Ceir rhestr o'r holl ymatebwyr ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cyflwynir y ddogfen hon, sy'n cynnwys adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'w ystyried.

## Diben yr Adroddiad

Diben y ddogfen hon yw rhoi cyngor ac argymhellion i'r Gweinidog ar y canlynol:

- Datblygu a gweithredu Ardaloedd Twf Lleol ym Mhowys
- Y problemau penodol sy'n wynebu'r Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu a chamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.

## 2. Cyd-destun

## Sir Powys

### Yr Economi

Mae lefelau CMC ac enillion Powys gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd y DU. Golyga hyn mai Powys yw un o'r rhanbarthau â'r CMC isaf yn y DU ac mae'r sefyllfa wedi yn gwaethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel llawer o ardaloedd gwledig, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn aml yn bwysig ac mae cyflogwyr mwy o faint yn y sector preifat yn cyfrannu llai at yr economi na'r cyfartaledd. Mae tystiolaeth o dangyflogaeth ac mae cyfraddau gweithgarwch economaidd yn isel mewn rhannau, tra bod lefelau hunangyflogaeth ar y cyfan yn uchel. Mae'r duedd tuag at farchnadoedd byd-eang hefyd yn golygu bod busnesau gwledig yn agored i gystadleuaeth gynyddol o'r tu allan i Gymru. Er gwaethaf hyn, am fod economïau gwledig hefyd yn cynnwys nifer fawr o wahanol ficrofusnesau, mae ganddynt hefyd rywfaint o gadernid cynhenid. Yn achos Powys yn benodol:

- Gostyngodd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen ym Mhowys o £13,000 yn 2008 (Cymru £15,122), i £11,799 yn 2009, (Cymru £14,664). Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad dros y flwyddyn o 64% o GYC y pen yn y DU yn 2008, (Cymru 74%), i 59% yn 2009, (Cymru 73%). [1]
- Amcangyfrifodd Cyllid a Thollau EM, ym mlwyddyn dreth 2009-10, mai'r incwm canolrifol o hunangyflogaeth ymhlith trigolion Powys oedd £9,090, (Cymru £9,280), yr incwm cyfartalog canolrifol o gyflogaeth oedd £16,600, (Cymru £17,400) a'r incwm cyfartalog canolrifol o bensiynau oedd £11,500, (Cymru £11,300)
- Roedd 78% o'r mentrau yng nghofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR) 2011 ar gyfer Powys yn Ficrofusnesau a oedd yn cyflogi llai na phum unigolyn, (Cymru 67%).
- Y cyflog wythnosol crynswth canolrifol ar gyfer swyddi amser llawn ym Mhowys yn 2011 oedd £401.90, o gymharu â £454.40 ar gyfer Cymru gyfan – dim ond 88% o gyfartaledd Cymru.
- Ym mis Mehefin 2011, roedd 14% o drigolion Powys rhwng 16 a 64 oed yn hunangyflogedig (Cymru 8%)

### Poblogaeth

Mae tystiolaeth o boblogaeth sy'n cynyddu ond sy'n heneiddio mewn llawer o rannau o Gymru wledig a cheir cymysgedd cymhleth o batrymau allfudo a mewnfudo o ran hen bobl a phobl ifanc. Nodweddir y patrwm anheddu ar gyfer rhan helaeth o Gymru wledig gan drefi marchnad a phentrefi bach a gwasgaredig sy'n golygu ei bod yn ddrutach darparu gwasanaethau. Mae allfudo gan bobl ifanc rhwng 15 a 19 oed yn fater allweddol i Gymru wledig ac mae'n ymwneud yn bennaf â diffyg cyflogaeth a dewisiadau o ran addysg yn lleol. Yn achos Powys yn benodol:

[1] Am ffynonellau'r holl ystadegau a nodwyd, gweler y ddogfen "50 Facts About Powys", y ceir y fersiwn diweddaraf ohoni yn: http://www.powys.gov.uk/index.php?id=9756&L=0

- Powys yw'r sir fwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr, gyda dim ond 25 o bobl fesul cilometr sgwâr yn 2010, (Cymru 145 o bobl fesul cilometr sgwâr).
- Yn ôl yr amcangyfrif roedd gan Bowys boblogaeth o 131,313 yng nghanol 2010. Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, y gostyngiad cyntaf ym mhoblogaeth Powys ers mwy na degawd.
- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yng nghanol 2010, collodd Powys 600 o'r grŵp 'myfyrwyr' rhwng 15 a 19 oed, a oedd i'w briodoli'n rhannol i'r diffyg darpariaeth AU yn y sir.
- 45 oedd oedran cyfartalog poblogaeth Powys yng nghanol 2010 (Cymru 41).
- Cynyddodd canran y bobl 75 oed a throsodd ym Mhowys o 9% yng nghanol 2000, (Cymru 8%), i 11% yng nghanol 2010 (Cymru 9%).

**Twristiaeth**

Mae'r sector hwn yn gyflogwr pwysig yng Nghymru wledig ond gall fod yn waith tymhorol â chyflog isel. Mae'r farchnad dwristiaeth draddodiadol yn newid ac mae cyfleoedd bellach i fanteisio ar farchnadoedd gwyliau byr a marchnadoedd arbenigol a thwristiaeth sy'n seiliedig ar weithgareddau. Yn achos Powys yn benodol:

- Mae twristiaeth yn darparu 12% o'r holl gyfleoedd cyflogaeth ac yn cyfrannu £615 miliwn i'r economi leol.

**Cyflogaeth a Sgiliau**

Er bod lefelau diweithdra yn draddodiadol wedi bod yn isel mewn llawer o rannau o Gymru wledig, gan gynnwys Powys, mae tystiolaeth o dangyflogaeth. Yn aml mae gan bobl ifanc gyflawniadau addysgol uchel a'r her yw cadw'r cyflawnwyr uchel hyn drwy ddarparu cyfleoedd am swyddi o safon. Yn achos Powys yn benodol:

- Enillodd 69% o ddisgyblion 15 oed ym Mhowys bum TGAU neu fwy graddau A*-C neu gymwysterau cyfatebol yn ystod blwyddyn academaidd 2009/10, (Cymru 64%).
- Yn 2010, roedd gan 33% o'r oedolion economaidd weithgar 16-64 oed ym Mhowys gymwysterau ar lefel NVQ4 neu uwch, (Cymru 34%), ac nid oedd gan 7% unrhyw gymwysterau, (Cymru 8%).

**Cysylltedd**

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn brin ac yn dameidiog mewn ardaloedd gwledig a cheir preifat yw'r unig opsiwn i lawer o bobl. Mae llawer o rannau o Gymru wledig yn dal i gael eu hystyried yn ardaloedd cymharol anhygyrch, er gwaethaf rhai gwelliannau i gysylltiadau ffordd a rheilffordd. Mae TGCh yn cynnig y cyfle i leihau perifferoldeb canfyddedig Cymru wledig, ond mae'n rhaid gwella seilwaith TGCh er mwyn sicrhau bod y fath wasanaethau yn ddibynadwy ac yn effeithlon. Mae cysylltedd band eang yn prysur ddod yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer twf economaidd ac felly mae cyflymderau cysylltu isel yn rhwystr i ffyniant economaidd. At hynny, mae trefi marchnad traddodiadol a phentrefi yn wynebu nifer o heriau sy'n golygu bod canol rhai trefi mewn cyflwr bregus. Yn achos Powys yn benodol:

- Yn 2010 yn ôl yr amcangyfrif roedd 59% o drigolion Powys yn byw mewn pentrefi, pentrefannau ac anheddau anghysbell, (Cymru 17%).

- Yng nghanol 2010,  yn ôl yr amcangyfrif roedd 54% o drigolion Powys yn byw mewn ardaloedd a oedd ymhlith y 10% gwaethaf yng Nghymru ar gyfer defnyddio gwasanaethau ar droed neu ar fws ym Mynegai Amddifadedd Lluosog 2011.

**Yr Amgylchedd**

Mae Cymru wledig yn cynnig bywyd o ansawdd uchel o safbwynt yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, a dyma un o'i phwyntiau gwerthu unigryw.  Mae cyfleoedd ar gyfer gwaith datblygu pellach yn cynnwys ynni adnewyddadwy, hamdden, twristiaeth gynaliadwy a bwyd lleol.  Mae nifer o brosiectau eisoes yn mynd yn eu blaen ym Mhowys (e.e. Menter Mynyddoedd Cambria) sy'n adeiladu ar y nodweddion amgylcheddol hyn, ond mae'r Grŵp yn awgrymu y gellir gwneud mwy.

- Mae Powys yn cwmpasu chwarter o dir Cymru.
- Mae gan Bowys arwynebedd o 5181 o gilometrau sgwâr, y mae 17% ohono ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Roedd 76% o'r tir ym Mhowys yn cael ei ffermio yn 2010.

I gael gwybodaeth ystadegol bellach am Bowys, ynghyd â ffynonellau'r ystadegau a nodwyd uchod, gweler y ddogfen “50 Facts About Powys”, y ceir y fersiwn diweddaraf ohoni yn: http://www.powys.gov.uk/index.php?id=9756&L=0

**Busnesau Bach a Microfusnesau ym Mhowys**

Mae microfusnesau (a ddiffinnir fel busnesau sy'n cyflogi llai na naw o bobl) yn rhoi cyfrif am 193,010 neu 94.5% o'r holl fusnesau yng Nghymru yn 2011.  Maent yn gyfrifol am 33.2% o'r swyddi yn y sector preifat yng Nghymru (331,400 o swyddi).

Mae lefelau hunangyflogaeth ym Mhowys yn uchel - mewn gwirionedd, o'r holl siroedd yng Nghymru, dim ond Caerdydd sydd â chyfradd hunangyflogaeth uwch na Phowys.  Mae'r rhan fwyaf o ficrofusnesau yn gweithredu mewn diwydiannau gwasanaeth a cheir nifer gymharol fwy yng Nghymru yn y sectorau dosbarthu, gwestai, bwytai a thrafnidiaeth.

Mae llawer o'r microfentrau yn fasnachwyr a darparwyr gwasanaethau yng nghanol trefi. Cynhaliodd Astudiaeth Fanwerthu Powys (Nathaniel Lichfield a Phartneriaid) haparolwg o feddianwyr busnes yng nghanol trefi ym mis Hydref 2011.  Nododd y canfyddiadau allweddol o'r astudiaeth y problemau canlynol sy'n wynebu busnesau yng nghanol trefi:

- Rhestrir isod ffactorau y nodwyd eu bod yn cyfyngu ar fusnesau: y lefel o fasnach / diffyg ymwelwyr / cwsmeriaid (40%); argaeledd lleoedd parcio ar gyfer busnesau a chwsmeriaid (16%); argaeledd gwael (12%); a rhenti / gorbenion (8%).
- Rhestrir isod yr atebion a nodwyd i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn: gwella systemau traffig (14%); parcio am ddim (11%); a gwella argaeledd lleoedd parcio (10%).
- Nododd busnesau fod cylchrediad traffig yn y Drenewydd a'r Trallwng yn ‘wael’
- Y mesur yr ystyriwyd y byddai'n fwyaf tebygol o helpu busnesau yng nghanol trefi oedd marchnata a hyrwyddo'r canol yn well yn gyffredinol, wedi'i ddilyn gan well cyfleusterau parcio ceir i gwsmeriaid.
- Y mesur yr ystyriwyd y byddai'n lleiaf tebygol o helpu busnesau oedd pedestreiddio a gwella strydluniau.

- Roedd busnesau yn y Drenewydd a'r Trallwng o'r farn bod canol eu trefi yn apelio gormod at ben isaf y farchnad.

**Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau**

Am fod microfusnesau mor bwysig i economi Powys, mae'r Grŵp yn cydnabod yr argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Symleiddio darparwyr cymorth busnes yn y sector cyhoeddus a lleihau nifer y fath ddarparwyr
- Mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau cymorth busnes a chodi ymwybyddiaeth ohonynt.
- Creu un brand tra adnabyddus ar gyfer cael gafael ar gymorth busnes.
- Datblygu rhwydwaith o 'Siopau Un Stop' er mwyn i ficrofusnesau gael cymorth uniongyrchol / anuniongyrchol ledled Cymru.
- Ehangu ac ailgyfeirio Gwasanaeth presennol y Ganolfan Ranbarthol er mwyn darparu cysyniad Siop Un Stop ar gyfer microfusnesau yng Nghymru.
- Hwyluso datrysiadau ariannol hyblyg gwerth rhwng £1,000 ac £20,000 i ficrofusnesau sy'n syml ac sy'n adlewyrchu lefel y buddsoddiad sydd ei angen.
- Helpu microfusnesau i fanteisio ar opsiynau ariannol priodol.
- Datblygu cynllun mentora a hyfforddi i Gymru gyfan er mwyn cefnogi microfusnesau.
- Symleiddio prosesau a rheoliadau caffael yn y sector cyhoeddus.
- Cyflwyno bil i Gymru ar Gaffael yn y Sector Cyhoeddus
- Sefydlu Comisiwn / Comisiynydd Caffael i Gymru.
- Annog defnyddio cyflenwyr lleol fel rhan o brosesau caffael yn y sector cyhoeddus
- Annog microfusnesau i ystyried dulliau consortia o gaffael yn y sector cyhoeddus.
- Cyflwyno contractau llai o faint i ddenu microfusnesau i dendro.
- Lobïo dros newid materion nas datganolwyd.
- Nodi pwy sy'n gyfrifol am ysgwyddo'r baich rheoliadol.
- Symleiddio rheoliadau sy'n dod o fewn pwerau Llywodraeth Cymru (ym mhob adran) i'w gwneud yn haws i ficrofusnesau gynnal a thyfu eu busnes.
- Sefydlu cymorth i ficrofusnesau gyda rheoliadau sy'n effeithio ar eu busnes e.e. iechyd a diogelwch, cyflogi staff, a chynllunio.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys wedi nodi argymhellion adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau, ac mae wedi ymgorffori'r canfyddiadau hyn – lle y bo'n gymwys – yn ei ymchwil a'i drafodaethau ei hun.

**Mae'r Grŵp hefyd yn nodi bod y Gweinidog wrthi'n gwahodd tendrau ar gyfer cyflawni tair elfen o'r strategaeth microfusnesau. Er ei fod yn deall y rhesymeg dros un system gaffael i Gymru gyfan er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a gwasanaeth, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried anghenion penodol Powys, a'i natur wledig, wrth ddyfarnu'r tendrau hyn ac o ran darparu'r gwasanaeth.**

**Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes**

Cydnabyddir ardrethi busnes fel mater allweddol, ac mae adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes wedi'i gyflwyno i'r Gweinidog i'w ystyried. O'r prif argymhellion a wneir yn yr adroddiad, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol yn cytuno yn benodol y dylai Llywodraeth Cymru “gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi cyfyngedig ac wedi'i dargedu mewn Ardaloedd Menter yng Nghymru” ond mae o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyflwyno'r dull hwn o ymdrin â'r Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys wedi nodi argymhellion eraill adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes, ac mae ymgorffori'r canfyddiadau hyn – lle y bo'n gymwys – yn ei ymchwil a'i drafodaethau ei hun.

## Y Cyd-destun Cynllunio

Delir y swyddogaeth gynllunio ym Mhowys gan ddau wahanol awdurdod – Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fydd yn disodli, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, Gynlluniau Datblygu Unedol presennol. Mae Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthi'n llunio eu CDLlau ac mae dogfen CSP ar gam y strategaeth a ffefrir a dogfen Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar y cam adneuo.

Yn ardal gynllunio Cyngor Sir Powys, mae amcanion y CDLl sy'n datblygu fel a ganlyn:

- darparu digon o dir i ddiwallu anghenion tai, cyflogaeth a manwerthu ac anghenion tir eraill yn y sir yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2026
- cyfeirio datblygiadau at leoliadau a wasanaethir gan ddewis o ddulliau teithio cynaliadwy yn unol â hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy, gyda datblygiadau mwy o faint yn cael eu cyfeirio at aneddiadau mwy o faint a all gynnal twf pellach
- hwyluso'r broses o newid i sir carbon isel a gwastraff isel a sicrhau bod datblygiadau yn addasu i newid yn yr hinsawdd a galwadau ar adnoddau ac yn cyfrannu cyn lleied â phosibl atynt, yn enwedig drwy sicrhau bod y risgiau o lifogydd sy'n wynebu datblygiadau newydd yn dderbyniol.
- cynnal economi amrywiol, cadarn a bywiog a chanol trefi llawn bywyd, hyfyw a deniadol sy'n gadarn ac sy'n ymateb i newid

Yn ardal gynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, rhai o amcanion allweddol y CDLl yw:

- Diogelu a gwella nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Hybu datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy gerllaw cyfleusterau a gwasanaethau gan leihau'r angen i deithio
- Sicrhau y bydd unrhyw waith datblygu yn y dyfodol yn diogelu ac yn gwella cymeriad y dirwedd
- Sicrhau bod unrhyw waith datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yn hyrwyddo traddodiadau'r amgylchedd adeiledig
- Sicrhau y darperir digon o gyfleustodau ar gyfer cymunedau lleol a datblygiadau yn y dyfodol

- Annog datblygiadau i ddefnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy a hybu prosiectau ynni adnewyddadwy bach a chanolig a arweinir gan y gymuned
- Gwella ansawdd ffisegol, effeithlonrwydd ynni a hygyrchedd pob datblygiad yn y Parc a'r gwaith o gynllunio ac adeiladu datblygiadau cynaliadwy
- Cefnogi diwydiant twristiaeth cynaliadwy sy'n cyfrannu at fwynhad y cyhoedd o'r Parc Cenedlaethol
- Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn y Parc Cenedlaethol drwy nodi prif greiddiau manwerthu

## 3. Cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol

### Cysyniad

Mae gan Bowys grynhoad uchel o weithwyr hunangyflogedig ac economi sy'n seiliedig yn bennaf ar amaethyddiaeth, twristiaeth a chymuned amrywiol o ficrofusnesau. Am nad oes unrhyw aneddiadau trefol mawr nac ardaloedd â phoblogaeth ddwys mae'n rhaid i'r economi leol gael ei llywio gan amrywiaeth, hyblygrwydd ac asedau adnewyddadwy. Mae sicrhau economi gadarn yn y sir yn flaenoriaeth uchel ac yn her ar adeg pan fo ffyniant economaidd yn lleihau a chyflogau'n isel.

Cyflwynwyd Ardaloedd Twf Lleol i ddechrau fel cynnig polisi gan y Ganolfan Dinasoedd ym mis Chwefror 2011. Nododd y cynnig y dylai'r Llywodraeth gyflwyno strategaeth newydd yn seiliedig ar ardaloedd – a elwir yn Ardaloedd Twf Lleol – a fyddai'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn pobl, sgiliau a thwf busnes.

Ar yr un pryd, roedd Cyngor Sir Powys a'i bartneriaid strategol hefyd yn llunio strategaeth ar gyfer y sir, yr oedd disgwyl iddi ddatblygu dull adfywio newydd ac arloesol. Ym mis Mehefin 2011, argymhellodd Bwrdd Partneriaeth Canolbarth Cymru CLlLC y dylid sefydlu Ardaloedd Twf Lleol yn rhanbarth Canol Cymru. Ar ôl hynny, lluniodd Cyngor Sir Powys gynnig amlinellol ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol a ystyriodd uchelgeisiau'r strategaeth adfywio ac a gyflwynwyd wedyn i'r Gweinidog Busnes, Menter a Thechnoleg ym mis Rhagfyr 2011.

Amlinellodd papur Powys sut y gall Ardaloedd Twf Lleol ddarparu dewis o opsiynau polisi i hybu a chynnal swyddi a thwf economaidd a chynnig cyfle i dreialu mathau gwahanol o ymyriadau sy'n sensitif i amgylchiadau economaidd ardal leol a'r heriau sy'n ei hwynebu o ran twf. Awgrymodd cynnig y Cyngor y gallai'r canlynol fod yn gymwys i Ardaloedd Twf Lleol ym Mhowys:

- Rhyddhad ardrethi
- Blaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno Band Eang y genhedlaeth nesaf
- Cynllunio syml
- Cymorth i brentisiaethau
- Rhoi ffocws i ymyriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol
- Rhoi ffocws i Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020


### Lleoliadau

Nododd ystyriaeth y Grŵp o'r dystiolaeth a'r ymchwil a gasglwyd drwy gydol y broses hon fod angen crynhoi adnoddau ac ymdrech yn ddaearyddol. O ystyried hyn, mae'r Grŵp o'r farn y caiff Ardaloedd Twf Lleol eu lleoli lle y cânt yr effaith fwyaf, drwy hybu datblygu a thwf economaidd a chan fabwysiadu cynaliadwyedd fel egwyddor arweiniol wrth wneud hynny.

Yn achos Powys, mae'r ardaloedd hyn lle y gellir cael yr effaith fwyaf ar hyd y coridor twf canolog fel y'i nodir yn y CDLl sy'n datblygu, sy'n ymestyn o'r gogledd i'r de drwy ganol y

sir gan ddilyn y rhwydwaith priffyrdd. Ceir y rhan fwyaf o'r trefi a'r aneddiadau mwy o faint yn y CDLl ar hyd y coridor hwn.

Dengys y map canlynol leoliad y coridor twf, ynghyd â lleoliadau trefi a phentrefi allweddol.



Y rheswm dros ganolbwyntio'r lefelau uwch o dwf yng nghanol y Sir, yn hytrach na'r ardaloedd ymylol, yw er mwyn sicrhau cynaliadwyedd drwy:

- hwyluso màs critigol ar gyfer darparu gwasanaethau
- ceisio cynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus
- cynyddu'r cyfleoedd i gydleoli tai a chyflogaeth
- cyfrannu at welliannau cymdeithasol a mynd i'r afael â phroblemau mewn ardaloedd difreintiedig yn y coridor

Er mwyn llywio'r CDLl sy'n datblygu ar gyfer Powys, mae Hyder Consulting Ltd wrthi'n rhoi tystiolaeth am y sefyllfa bresennol o ran safleoedd cyflogaeth ym Mhowys ac anghenion y sir o ran y cyfryw safleoedd yn y dyfodol ac yn llunio cynllun manwl ar argaeledd tir datblygu, yn ogystal â gofynion rhagamcanol busnesau lleol o ran safleoedd manwerthu a swyddfeydd. Er mai ar gam drafft y mae o hyd, mae'r Adolygiad hwn o'r Farchnad Eiddo yn dangos bod y galw mwyaf am dir cyflogaeth yn y Trallwng, y Drenewydd, Ystradgynlais ac Aberhonddu.

Felly, yn sgil trafodaethau manwl, tystiolaeth gan siaradwyr arbenigol, adolygiad llenyddol helaeth o adroddiadau perthnasol a chyfraniadau at y cais am dystiolaeth ac ar ôl ystyried CDLlau sy'n datblygu, **mae'r Grŵp yn argymell y dylid sefydlu Ardaloedd Twf Lleol Powys yn y lleoliadau canlynol:**

- **Dyffryn Hafren (y Trallwng / y Drenewydd / Llanidloes)**
- **Rhaeadr Gwy / Llandrindod / Llanfair-ym-Muallt**
- **Aberhonddu / Bronllys / Talgarth**
- **Ystradgynlais**

Dylid nodi i leoliadau eraill hefyd gael eu hystyried ar gyfer statws Ardal Dwf Leol. Yn sgil y penderfyniad i ganolbwyntio Ardaloedd Twf Lleol ar hyd y coridor twf canolog, ni ellid cynnwys pob un o'r ardaloedd a ystyriwyd yn y cynnig terfynol hwn. Fodd bynnag, mae'r Grŵp o'r farn, yn dilyn canlyniadau unrhyw raglenni i dreialu Ardaloedd Twf Lleol, y gellid cyflwyno rhai neu'r cyfan o'r ysgogiadau polisi a nodwyd ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol mewn trefi neu ardaloedd eraill yn y dyfodol.

**Dulliau Datblygu ac Ysgogiadau Polisi**

Mae'r Grŵp Gorffen a Gorchwyl o'r farn bod y cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol yn berthnasol i Bowys fel model amgen yn lle Ardaloedd Menter er mwyn helpu i hybu a chynnal swyddi a thwf yn y sir. **Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol fel y nodir yn yr adroddiad hwn.**

Yn yr Ardaloedd Twf Lleol, gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau datblygu ac ysgogiadau polisi, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau lleol. Ar ôl trafod ac ystyried y cyflwyniadau a gafwyd fel rhan o'r cais am dystiolaeth yn helaeth, ystyrir mai'r canlynol yw'r dulliau datblygu allweddol posibl ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol ym Mhowys:

**1. Blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu band eang cyflym a WiFi ym mhob Ardal Dwf Leol**

Er mwyn iddi allu cystadlu mewn economi ddigidol fyd-eang, mae'n hanfodol sicrhau y gall pob rhan o Bowys fanteisio ar fand eang cyflym y genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardal mor wledig, am fod llawer o fusnesau yn dibynnu ar argaeledd TGCh er mwyn gwneud iawn am y ffaith eu bod mor bell o'r farchnad. Fodd bynnag, mae'r cyflymderau band eang cyfyngedig presennol (ac mewn rhai ardaloedd y ffaith nad oes unrhyw wasanaeth o gwbl) yn rhwystr mawr i fusnes, yn enwedig wrth i feintiau data gynyddu ac wrth i'r defnydd o'r rhyngrwyd ddod hyd yn oed yn fwy cyffredin.

Mae'r grŵp yn nodi bod darparu band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru erbyn diwedd 2015 eisoes yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Ardaloedd Twf Lleol yn cael gwasanaeth band eang cynhwysfawr fel mater o flaenoriaeth fel rhan o gam cyntaf y broses o gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf.** Bydd hyn yn sicrhau mwy o degwch i fusnesau ym Mhowys allu cystadlu, gan fanteisio ar wasanaethau perthnasol, marchnadoedd newydd, cyfleoedd rhwydweithio, cymorth i fusnesau, sgiliau a hyfforddiant a gwybodaeth arall.

At hynny, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r gwaith o ddarparu band eang hefyd gael ei gysylltu â'r gwaith o ddarparu WiFi ym mhob un o'r trefi yn yr Ardaloedd Twf Lleol**. Er bod hyn yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar lefel fwy lleol, mae'r Grŵp o'r farn ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r fath gam gweithredu.

**2. Signal ffonau symudol / 3G / 4G**

Mae signal ffonau symudol ledled Powys, ar y gorau, yn ysbeidiol. Am fod llawer o fusnesau bellach yn disgwyl gallu defnyddio'r rhyngrwyd tra byddant yn symud, mae'r diffyg signal hwn yn rhoi Powys o dan anfantais benodol. Mae hefyd gyfleoedd sy'n gysylltiedig â diwydiannau penodol, megis twristiaeth, y gellir manteisio arnynt orau drwy ddefnyddio dyfeisiau symudol. Felly, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant telathrebu i ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwell seilwaith ar gyfer teleffoni symudol yn y sir**.

**3. Seilwaith – ffyrdd a rheilffordd**

Mae seilwaith effeithlon ac effeithiol o ansawdd uchel yn elfen hanfodol wrth gynnal trefi ledled Powys a hybu eu twf economaidd. Am fod marchnadoedd lleol yn gyfyngedig, bydd angen seilwaith ar y rhan fwyaf o gwmnïau i symud nwyddau a gwasanaethau i'w marchnadoedd (sydd i'r dwyrain fel arfer). Felly mae cysylltiadau o'r dwyrain i'r gorllewin yn hanfodol. Mae'r grŵp yn cydnabod bod gwaith pwysig eisoes wedi'i wneud (e.e. adeiladu dolenni pasio ar Lein y Cambrian er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy effeithlon) ond mae problemau y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd.

Er enghraifft, mae nifer fawr o bobl wedi mynegi pryderon i'r Grŵp ynghylch yr A483 drwy'r Drenewydd, y credir bod lefelau traffig arni gryn dipyn yn fwy na'i chapasiti a hynny ers rhai blynyddoedd. Mae hyn yn peri oedi hir i draffig sy'n dod i mewn ac allan o'r dref ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan fasnachwyr a busnesau lleol yn awgrymu bod y tagfeydd hyn yn cael effaith sylweddol ar fasnach. At hynny, nid yw'r effaith hon yn gyfyngedig i'r Drenewydd yn unig – ceir effeithiau ledled y Sir ac yn wir ledled rhanbarth y Canolbarth yn gyffredinol, am fod yr A483 yn ffordd brifwythiennol allweddol.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff y prosiectau seilwaith allweddol, fel y'u nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (gan gynnwys ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd, y gwasanaeth bob awr ar Lein y Cambrian, a gwelliannau ffordd ar yr A458 rhwng Buttington Cross a Wollaston Cross) eu datblygu fel mater o flaenoriaeth.**

At hynny, mae'r Grŵp o'r farn y gallai prosiectau seilwaith eraill yn y sir, gan gynnwys y cyfle i wneud mwy o ddefnydd o'r rheilffordd i gludo nwyddau, sicrhau manteision sylweddol i'r economi a bod angen eu hystyried o ran unrhyw adolygiad o'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y dyfodol.

## 4. Eiddo masnachol

Ym Mhowys, mae'n amlwg mai'r prif ffactor sy'n llywio gofynion o ran tir cyflogaeth ac eiddo yn y dyfodol yw'r angen i adnewyddu a gwella adeiladau sy'n bodoli eisoes, y mae llawer ohonynt gryn dipyn yn is na'r safon a ddisgwylir bellach gan fusnesau modern. Yn benodol, mae stoc adeiladau sy'n heneiddio yn y sector gweithgynhyrchu yn rhoi busnesau o dan gryn bwysau ac mae angen adnewyddu adeiladau neu adleoli i adeiladau modern sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Fodd bynnag, yn ardal Powys, mae diffyg yn y farchnad o ran eiddo masnachol bod amser wedi bod yn broblem. Mae dirwasgiadau diweddar wedi gwneud y broblem hon yn waeth yn ogystal â'r ffaith bod angen i adeiladau newydd gyrraedd safonau BREEAM Ardderchog, sy'n cynyddu costau i ddatblygwyr ymhellach. Mae'r Grŵp wedi clywed tystiolaeth o blaid y farn, heb ymyrraeth sylweddol gan y sector cyhoeddus yn y farchnad eiddo, na fydd y sector preifat yn sicrhau'r ddarpariaeth angenrheidiol. Mae hyn yn amharu cryn dipyn ar ymdrechion i hyrwyddo datblygiad economaidd yn y sir.

Mae rhywfaint o waith i fynd i'r afael â'r broblem hon wedi'i wneud. Er enghraifft, fel rhan o Raglen Adfywio Strategol Dyffryn Hafren sy'n cael cymorth ariannol gan yr UE, ymgymerwyd â gwaith i ddarparu seilwaith o ansawdd uchel ar gyfer safleoedd ym Mharc Diwydiannol Clawdd Offa (ger y Trallwng) ac Aber-miwl (ger y Drenewydd). Fodd bynnag, oherwydd y ffactorau a nodwyd uchod, mae datblygwyr eiddo yn y sector preifat yn amharod i fuddsoddi yn y safleoedd hyn ac nid adeiladwyd unrhyw unedau eto.

At hynny, gwyddom fod nifer o gyflogwyr mwy o faint ym Mhowys y mae angen adeiladau ychwanegol neu amgen arnynt i'w helpu i ehangu. Unwaith eto, oherwydd diffyg yn y farchnad eiddo masnachol, a chyfyngiadau ar fenthyciadau gan fanciau, nid yw'r busnesau hyn mewn sefyllfa i adeiladu eiddo eu hunain. Mae'r wybodaeth hon – a gasglwyd drwy'r cais am dystiolaeth, a thrwy gysylltu â busnesau mewn ffyrdd eraill – yn fasnachol sensitif ac felly nid yw wedi'i hatgynhyrchu yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gellir rhoi manylion pellach yn uniongyrchol i'r Gweinidog yn ôl yr angen.

Felly, am nad oes marchnad yn y sector preifat, mae'r Grŵp yn awgrymu bod yn rhaid i'r sector cyhoeddus chwarae rhan fwy gweithredol o ran darparu tir ac eiddo priodol i ddiwallu anghenion busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r sector cyhoeddus hwyluso busnesau sy'n bodoli eisoes ym Mhowys sydd am adleoli i safleoedd mwy priodol a'u rhoi ar y trywydd cyflym a'u cefnogi, tra'n cefnogi busnesau sy'n dod i mewn y mae angen safleoedd arnynt. Dylai hyn gynnwys helpu i ddatblygu eiddo masnachol mewn Ardaloedd Twf Lleol drwy gynlluniau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau lle y bo angen.**

## 5. Cynllunio

Delir y swyddogaeth gynllunio ym Mhowys gan ddau wahanol awdurdod – Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fydd yn disodli, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, Gynlluniau Datblygu Unedol presennol. Mae Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthi'n llunio eu CDLlau.

Yng Nghynllun Datblygu Lleol Powys, nodwyd coridor twf canolog, sy'n dilyn y rhwydwaith ffyrdd o'r gogledd i'r de drwy ganol y sir, ac mae'n tueddu i ganolbwyntio ar yr aneddiadau allweddol yn y sir. Bydd y Grŵp o'r farn bod canolbwyntio ar Ardaloedd Twf Lleol ar hyd y coridor hwn yn helpu i grynhoi lefelau uwch o dwf yng nghanol y sir, yn hytrach nag mewn ardaloedd ymylol. Er mwyn hybu twf yn yr ardaloedd hyn, mae'r Grŵp o'r farn y gall Gorchmynion Datblygu Lleol fod yn ddull datblygu priodol.

Mae Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi caniatâd ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad a nodwyd ac felly mae'n dileu'r angen i'r datblygwyr wneud ceisiadau cynllunio. Fel arfer mae'r datblygiadau hyn yn gymharol fach ac fel rheol nid ydynt yn rhai cynhennus. Am fod Gorchmynion Datblygu Lleol yn dileu'r angen am ganiatâd cynllunio gall y darpar ddatblygwr fwrw ymlaen â'r cynllun yn gyflymach a chyda mwy o sicrwydd. Mae'n ddigon posibl y bydd y costau sy'n gysylltiedig â datblygiad yn llai yn achos Gorchymyn Datblygu Lleol am na fydd y datblygwr yn gorfod talu ffi cais cynllunio na neilltuo'r adnoddau sy'n gysylltiedig â llunio cais ychwaith.

Caiff Cynllun Datblygu Lleol ei wneud yn ôl disgresiwn yr awdurdod cynllunio lleol. Gall y Cynllun Datblygu Lleol ymwneud â'r holl dir yn ardal yr awdurdod cynllunio, neu â rhan o'r tir hwnnw'n unig, neu â safleoedd penodol. Dylid penderfynu ar gynnwys Gorchmynion Datblygu Lleol mewn ymateb i amgylchiadau lleol.

Ceir eithriadau sy'n gymwys i Orchmynion Datblygu Lleol. Yn gyntaf, dylid nodi na fydd Gorchmynion Datblygu Lleol yn gymwys mewn Parciau Cenedlaethol, ac felly ni fyddant yn gymwys i'w defnyddio yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. At hynny, er mwyn sicrhau y diogelir treftadaeth adeiledig Cymru, mae gwaith datblygu a fyddai'n effeithio ar adeilad rhestredig hefyd wedi'i eithrio o gwmpas Gorchmynion Datblygu Lleol. Yn ardal gynllunio Powys, mae gan nifer o drefi ardaloedd cadwraeth dynodedig a nifer fawr o adeiladau rhestredig. Felly, ni ellir defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol ym mhob Ardal Dwf Leol. Fodd bynnag, maent yn debygol o fod yn ddull datblygu defnyddiol mewn ardaloedd priodol.

Felly, yn yr ardal lle mae Cyngor Sir Powys yn gweithredu fel yr awdurdod cynllunio, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r Cyngor edrych ar yr is-ddeddfwriaeth ar gyfer Gorchmynion Datblygu Lleol, er mwyn nodi pa mor briodol ydynt ar gyfer trefi, safleoedd ac ardaloedd a ddewiswyd yn yr Ardaloedd Twf Lleol**.

**Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai Cyngor Sir Powys roi sylw priodol i argymhellion y Grŵp hwn a defnyddio'r adroddiad hwn i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu.**

Nododd tystiolaeth anecdotaidd a gafwyd gan y Grŵp fod sawl busnes a datblygwr wedi bod yn oedi cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio oherwydd costau uchel y mae'n rhaid eu talu ymlaen llaw heb unrhyw sicrwydd y rhoddir caniatâd cynllunio ar ddiwedd y broses nac unrhyw bosibilrwydd yr ad-delir ffioedd. **Felly, mae'r Grŵp yn argymell, yn sgil adolygiadau o brosesau cynllunio sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, y dylai'r Gweinidog geisio cydgysylltu ag adrannau eraill er mwyn dylanwadu ar y sefyllfa hon**.

At hynny, wrth i'r Grŵp fwrw ymlaen â'i waith yn ystod y pedwar mis diwethaf, mae wedi dod yn amlwg yr ystyrir bod prosesau cynllunio yn rhwystro busnesau. Nodwyd hyn yn ardal gynllunio Cyngor Sir Powys ac, i raddau mwy, yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, lle roedd rhai sylwadau a gafwyd yn feirniadol iawn o'r Parc. Roedd cyfranwyr, a hefyd y Grŵp, yn gryf o'r farn bod yn rhaid i brosesau cynllunio fod yn hyblyg er mwyn galluogi a hwyluso datblygiadau economaidd priodol, yn enwedig yn y trefi allweddol ledled y sir.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell, yn sgil adolygiadau o brosesau cynllunio sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, y dylai'r Gweinidog geisio cydgysylltu ag adrannau eraill ynghylch y ffordd y mae'r system gynllunio yn gweithredu ledled y sir, gan roi sylw penodol i'r modd y mae'r broses gynllunio yn annog ac yn galluogi twf economaidd a chreu swyddi a, lle bynnag y bo modd, geisio symleiddio prosesau a chefnogi gwaith datblygu priodol.**

## 6. Adfywio a arweinir gan dreftadaeth

Mae profiad wedi dangos pa mor bwysig yw ansawdd ffisegol trefi er mwyn denu trigolion, twristiaid a busnesau newydd. Mae gan lawer o drefi a phentrefi Powys ardaloedd cadwraeth sy'n diogelu eu cymeriad a'u pensaernïaeth unigryw ac mae'n bwysig diogelu a gwella natur unigryw'r ardaloedd lleol hyn drwy waith cynllunio a datblygu o ansawdd uchel.

Felly, er mwyn cefnogi ac ysgogi adfywio yng nghanol y trefi unigryw a hanesyddol hyn, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhoi rhaglen Menter Treftadaeth Treflun ar waith a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r prif drefi mewn Ardaloedd Twf Lleol.**

## 7. Darparu hyfforddiant a sgiliau

Mae'r Grŵp yn deall, mewn blynyddoedd blaenorol, fod cryn drafodaeth wedi bod ynghylch ad-drefnu darpariaeth addysg ôl-16 ym Mhowys ac mae llawer o waith wedi'i wneud i foderneiddio gwasanaethau. Derbynnir bod yn rhaid sicrhau bod hyfforddiant, rhaglenni datblygu sgiliau a chyfleoedd prentisiaeth yn y sir yn cyd-fynd ag anghenion busnesau a chyflogwyr a bod y fath ddull gweithredu yn gofyn am gryn dipyn o gydweithredu rhwng pob parti. Fodd bynnag, mae'r Grŵp wedi clywed tystiolaeth i ategu'r argraff na all darparwyr Addysg Bellach mewn sir wledig gynnal ystod lawn o gyrsiau mewn modd hyfyw, am nad oes digon o fyfyrwyr. Felly, mae angen ariannu'r gwaith o ddarparu cyrsiau ar sail anghenion cyflogwyr a busnesau ac nid ar sail nifer y myfyrwyr yn unig. Mae'r diffyg darpariaeth AU yn y sir hefyd yn broblem fawr.

Er mwyn datrys y broblem hon bydd angen creu cysylltiadau agosach rhwng darparwyr AB a busnesau lleol. Yn benodol mae angen i Gyngor Sir Powys, Coleg Powys a'r prif ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith gydweithio â chyflogwyr lleol i ddadansoddi anghenion yn fanwl a chynllunio darpariaeth ar y cyd, er mwyn sicrhau bod yr opsiynau hyfforddi a gynigir yn berthnasol i gyflogwyr a sicrhau bod cymaint o gyfleoedd cyflogaeth â phosibl ar gael i ddysgwyr sy'n gadael addysg bellach. Dylai'r cysylltiadau hyn gael eu hategu gan fuddsoddiad mewn prentisiaethau, fel y gall darparwyr alluogi myfyrwyr i sicrhau lleoedd gyda chwmnïau gweithgynhyrchu, peiriannu ac adeiladu lleol a diwydiannau eraill. Er mwyn hwyluso hyn, byddai'r Grŵp yn croesawu mentrau rhwng darparwyr AB er mwyn creu'r cynghreiriau angenrheidiol â byd busnes ac er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn ymateb i anghenion.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r cymorth angenrheidiol i ddarparwyr Addysg Bellach yn y sir er mwyn sicrhau y gellir darparu cyrsiau priodol, gan gynnwys prentisiaethau, sy'n cysylltu ag anghenion busnesau lleol, i fyfyrwyr ym Mhowys, gan ystyried natur wledig y sir a nifer fach y myfyrwyr sydd yn aml yn dilyn cyrsiau.**

**Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i hyfforddiant sgiliau a chymorth i ddatblygu'r gweithlu ar gyfer busnesau mewn Ardaloedd Twf Lleol.**

Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Grŵp yn cydnabod bod peth dryswch o hyd ymhlith busnesau o ran pa gefnogaeth a chymorth y gall darparwyr Addysg Bellach, a Llywodraeth Cymru hefyd, eu rhoi iddynt. **Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai darparwyr AB a Llywodraeth Cymru roi sylw ar frys i sicrhau cyfathrebu cliriach â busnesau mewn Ardaloedd Twf Lleol er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cymorth sydd ar gael.**

## 8. Ardrethi busnes

Mae'r Grŵp wedi nodi argymhellion adroddiad diweddar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ardrethi Busnes yng Nghymru. Yn benodol, mae'r Grŵp wedi nodi argymhelliad 10 yn yr adroddiad, sy'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun rhyddhad trethi

cyfyngedig, wedi'i dargedu mewn Ardaloedd Menter yng Nghymru. **Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff unrhyw gynnig neu gynllun ar gyfer y fath gynllun ei ymestyn i gwmpasu'r Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig ym Mhowys.**

Mae'r Grŵp hefyd yn derbyn nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddarparu rhyddhad ardrethi busnes yn gyffredinol ym mhob Ardal Dwf Leol. Fodd bynnag, mae'r **Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ailasesu ardrethi busnes / gwerth ardrethol yn yr Ardaloedd Twf Lleol, yn seiliedig ar y sefyllfa economaidd bresennol**. Os penderfynir ar unrhyw ryddhad ardrethi ar ôl hynny, awgrymir y dylai hyn ganolbwyntio ar fusnesau newydd yn yr Ardaloedd Twf Lleol.

## 9. Cymorth ac arian i fusnesau

O ran cymorth i fusnesau, mae'r Grŵp yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau ac mae'n edrych ymlaen at ddatblygu dull Siop Un Stop o roi cymorth i fusnesau ym Mhowys. Mae'n hanfodol, fel rhan o'r broses hon, y caiff gwybodaeth am fusnesau ei chasglu drwy ddeialog a chyfarfodydd rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat er mwyn nodi anghenion y gymuned fusnes o ran cymorth. Mae hyn yn debygol o gynnwys materion megis mentora, cynllunio ar gyfer olyniaeth, uwchraddio TGCh a marchnata a hyrwyddo. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Siop Un Stop, a dulliau cymorth eraill megis Model arfaethedig Menter Powys ddarparu'r hyn y mae busnesau yn gofyn amdano a bydd yn sicrhau cefnogaeth cymunedau lleol.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau yn ystyried pwysigrwydd mentora, cynllunio ar gyfer olyniaeth, marchnata, hyrwyddo ac, yn benodol, uwchraddio TGCh ar gyfer busnesau bach yn y sir.**

At hynny, fel y cydnabyddir yn yr adroddiad ar Ficrofusnesau a'r cynigion ar gyfer Siop Un Stop, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y rhoddir cymorth sy'n diwallu'n benodol anghenion microfusnesau a busnesau bach, am mai dyma'r prif fathau o fusnesau a geir ledled Powys**.

**At hynny, mae'r Grŵp yn argymell, wrth ddyfarnu contractau i gyflawni'r strategaeth ar gyfer microfusnesau, fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod natur wledig y rhanbarth a'i ficrofusnesau amrywiol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o fis Ionawr 2013 ymlaen.**

Mae'r Grŵp wedi clywed bod rhai busnesau yn nodi bod cael gafael ar gyllid, ar hyn o bryd, yn dal i gyfyngu cryn dipyn ar dwf. Nid yw Powys yn gallu cael gafael ar gyllid drwy Gronfa Fuddsoddi Leol, sydd ar gael i gefnogi prosiectau yn y rhanbarth Cydgyfeirio. **Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys wneud rhagor o waith i ystyried opsiynau ar gyfer denu benthycwyr eraill i'r farchnad er mwyn hwyluso'r broses o gael gafael ar gyllid, yn enwedig ar gyfer microfusnesau a busnesau bach yn y sir.**

Er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu targedu lle y gallant gael yr effaith fwyaf, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y dylai unrhyw gyllid a gaiff ei fenthyca drwy systemau sy'n bodoli eisoes yn y sector**

**cyhoeddus gael ei flaenoriaethu ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol (er na ddylid ei gyfyngu iddynt yn unig)**.

Mae'r Grŵp yn awgrymu nad yw ardal Powys yn cael ei hyrwyddo'n dda ar hyn o bryd fel lleoliad ar gyfer tyfu a datblygu busnesau. **Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau bod y rhanbarth yn cael ei farchnata mewn ffordd ddynamig fel lleoliad ar gyfer datblygu busnesau newydd a brodorol.**

## 10. Seilwaith – cyflenwad ynni

Mae angen cyflenwad ynni sy'n addas at y diben ar fusnesau modern. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau sy'n defnyddio llawer o ddata, naill ai i drosglwyddo neu storio gwybodaeth. Mewn rhannau o Bowys, mae'r Grŵp yn deall bod y seilwaith ynni yn agos iawn at ei gapasiti ar hyn o bryd a'i bod yn bosibl na fydd y seilwaith hwn yn gallu diwallu anghenion busnesau yn y sir yn y dyfodol, oni wneir buddsoddiad sylweddol i'w wella.

Dylai unrhyw waith gwella seilwaith o'r fath geisio sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fusnesau a chymunedau lleol. Er enghraifft, bydd ystod o gyfleoedd ar gyfer prosesau caffael lleol o ran peirianneg, adeiladu, sylfeini, cludiant, clirio coedwigoedd a gwasanaethau eraill. Bydd y rhain yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r seilwaith cyflenwad ynni ei hun, yn ogystal â gweithgarwch datblygu technolegau cynhyrchu megis ynni'r gwynt ac ynni dŵr.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda chyflenwyr ynni er mwyn sicrhau y caiff y seilwaith ynni yn y sir ei wella'n briodol, tra'n parhau i helpu i ddatblygu amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy priodol sy'n gydnaws ag amgylchedd naturiol y sir.**

## 11. Cronfeydd yr UE a chymorth gwladwriaethol

Drwy gydol ei drafodaethau, mae'r Grŵp wedi cydnabod bod angen sicrhau y bydd Powys yn dal i allu cael gafael ar arian Ewropeaidd a gwneud y defnydd gorau ohono yn y byrdymor a'r tymor canolig. Mae'r Grŵp hefyd yn ymwybodol bod yn rhaid i Bowys sicrhau ei fod yn cael cymaint o gymorth ariannol â phosibl gan Ewrop yn y dyfodol ac mae wedi clywed llawer o sylwadau yn awgrymu y dylid ystyried ail-ddosbarthu'r sir ar gyfer cymorth ariannol gan Ewrop yn y dyfodol (ar hyn o bryd mae CMC gryn dipyn yn is na'r trothwy ar gyfer cymhwyso fel ardal Gydgyfeirio). At hynny, mae Cyngor Sir Powys yn ystyried pa gyfleoedd a all fod i ddatblygu'r cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol er mwyn ymgorffori'r model "buddsoddi tiriogaethol integredig" (ITI) sy'n cael ei gynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Wrth adolygu ei fap presennol o ardaloedd a gynorthwyir, mae angen rhoi sylw penodol i anghenion economi a busnesau Powys, er mwyn sicrhau y caniateir i'r lefel uchaf bosibl o gymorth ariannol helpu busnesau i ddatblygu, gan helpu i greu swyddi a sicrhau twf.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys ystyried sut y gellir gwneud y defnydd gorau o'r cylch nesaf o arian gan yr Ewrop (2014 i 2020) er mwyn helpu i gyflawni'r argymhellion yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn.**

**Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau yr edrychir ar y dynodiad a roddir i Bowys gan yr UE yn y dyfodol ar ôl 2020, gan ystyried anghenion presennol a CMC isel.**

**At hynny, o gofio anghenion penodol Powys, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y rhoddir ystyriaeth arbennig i'r sir yn yr adolygiad arfaethedig o'r map o ardaloedd a gynorthwyir.**

## 12. Twristiaeth

Mae'r amgylchedd naturiol a gweithgarwch busnes twristiaeth cysylltiedig yn asedau pwysig i Bowys. Fodd bynnag, mae llawer o'r hyn a gynigir o ran twristiaeth a llawer o'r seilwaith twristiaeth y tu allan i ffiniau'r Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn darparu cryn dipyn o gyflogaeth ac incwm yn y sir, yn yr Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig a'r tu allan iddynt. Mae asedau eithriadol yn cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac ardal Cwm Elan gyda'i Ganolfan Ymwelwyr, ei argaeau a'i lynnoedd (sy'n eiddo i Dŵr Cymru) a'r ystâd gysylltiedig a reolir gan Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Mae'r ardal hon, sydd ag arwynebedd o 45,000 o erwau, yn un o'r ardaloedd helaethaf â'r nifer fwyaf o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol (SoDdG) dynodedig ym Mhrydain.

Mae twristiaeth yn ffactor llywio economaidd pwysig o ran cynaliadwyedd a thwf, ac eto o'i chymharu ag ardaloedd eraill ni fanteisir digon ar weithgarwch sy'n seiliedig ar yr amgylchedd naturiol ym Mhowys o ran cynhyrchion a gwasanaethau cysylltiedig. Er enghraifft, ar hyn o bryd ni cheir fawr ddim gweithgarwch ar lynnoedd helaeth Dŵr Cymru yng Nghwm Elan o gymharu â chyfleusterau tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU. Felly, roedd y Grŵp yn falch o glywed y bwriedir datblygu gweithgareddau (e.e. hwylio, caiacio, rhwyfo) yn y dyfodol sy'n gydnaws â chadwraeth natur a mwynhad tawel o gefn gwlad. Yn yr un modd, dylid ystyried hefyd gyfleoedd i fanteisio ar ardaloedd eraill megis Llyn Efyrnwy ac ati.

Prin yw'r busnesau neu ddatblygiadau twristiaeth mawr iawn ym Mhowys ac felly mae cyfle i gynyddu'r ddarpariaeth y mae'r sir yn ei chynnig i dwristiaid. Yn seiliedig ar enghreifftiau mewn mannau eraill, mae potensial ar gyfer datblygiad ‘gwyrdd’ o gynllun eiconig, ansawdd uchel sy'n amgylchedd sensitif ac yn uchel ei broffil. Er mwyn datblygu hyn ymhellach, mae'n bosibl y gellid nodi ardaloedd gwledig penodol ym Mhowys a darparu cymhelliant i ddatblygu cyfleusterau twristiaeth yno drwy Orchmynion Datblygu Lleol a phrosesau cynllunio llwybr carlam. Gallai'r fath waith datblygu gael cryn effaith yn yr Ardaloedd Twf Lleol o ran cyflogaeth a hyfforddiant gan gynnwys adeiladu, diwydiannau gwasanaeth lleol, caffael ynghyd â sgil-effeithiau ar ffurf mwy o ymwelwyr ar gyfer busnesau manwerthu a busnesau lletygarwch. Fodd bynnag, ar hyn bryd ni ellir defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol fel hyn ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n ddarostyngedig i'w system gynllunio annibynnol ei hun.

Byddai'r sir gyfan yn cael budd am y byddai busnesau yn fwy parod i feddwl amdani fel ardal ‘lle y gellir datblygu busnesau twristiaeth’ yn y dref ac yng nghefn gwlad. Mae angen gweledigaeth bendant ar Gyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer datblygu twristiaeth yn eu hardal, sy'n cydnabod gofynion y

gweithredwyr twristiaeth. At hynny, dylent fynd ati i frandio a marchnata'r weledigaeth hon mewn ffordd ragweithiol i randdeiliaid a datblygwyr yn lleol ac ymhellach i ffwrdd.

Yn y cyfamser mae digwyddiadau mawr megis Gŵyl y Gelli sy'n enwog yn rhyngwladol yn gwneud cyfraniad pwysig at dwristiaeth ym Mhowys ac mae'r sir mewn sefyllfa dda i ddatblygu mwy o'r fath ddigwyddiadau eiconig â thema. Mae'r Grŵp yn ymdrin â hyn yn fwy penodol isod o ran trefi Aberhonddu a Llandrindod, gan nodi bod llwyddiant y fath fentrau yn aml yn dibynnu ar arweinyddiaeth gref a gweledigaeth uchelgeisiol gan unigolion allweddol yn y gymuned.

At hynny, mae Menter Mynyddoedd Cambria yn brosiect eang ei gwmpas sy'n ceisio helpu i hyrwyddo menter wledig, diogelu'r amgylchedd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion a gwasanaethau yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r prosiect yn cynnwys rhannau helaeth o orllewin Powys ac fe'i hysbrydolwyd gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, sef Llywydd Menter Mynyddoedd Cambria, sydd am helpu i gynnal ffermydd mynydd a chymunedau gwledig traddodiadol.

Fel rhan o hyn, mae'r Tywysog wedi sefydlu cynllun i gydnabod sefydliadau twristiaeth o ansawdd uchel yn y rhanbarth gyda grŵp arbennig o Genhadon Twristiaeth o Fenter Mynyddoedd Cambria. Bwriedir i'r cynllun gydnabod pwysigrwydd cyfraniad y Cenhadon i'r rhanbarth, gan gynnwys y defnydd a wnânt o Fynyddoedd Cambria a chynnyrch bwyd lleol arall, a'r ffordd y maent yn cyfrannu at weithgarwch economaidd ac yn helpu ymwelwyr i gysylltu â chefn gwlad a diwylliant ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru. Felly, mae Menter Mynyddoedd Cambria yn cynnig cyfle marchnata unigryw i ychwanegu gwerth a chynyddu'r hyn a gynigir gan y sir o ran twristiaeth ar hyn o bryd ac mae'n cyd-fynd â'r potensial ym Mhowys i ddatblygu gweithgareddau mwy amrywiol a chyffrous sy'n gysylltiedig â'r dirwedd.

Yn seiliedig ar yr uchod, **mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y manteisir ar y cyfle i adeiladu ar ansawdd yr ardal a datblygu'r sector twristiaeth ymhellach.** Mae'r sector yn bwysig i'r rhanbarth ac felly mae angen parhau i roi cymorth i wella ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth.

## 4. Cynigion ychwanegol ar gyfer y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu

### Problemau sy'n wynebu canol trefi

Ym mis 2011, comisiynwyd Mary Portas, ymgynghorydd blaenllaw ym maes marchnata manwerthu gan Lywodraeth y DU i gynnal adolygiad o strydoedd mawr yn Lloegr. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2011. Nododd Adolygiad Portas y canlynol:

- Gostyngodd nifer y siopau yng nghanol trefi bron 15,000 rhwng 2000 a 2009 ac amcangyfrifir i 10,000 o siopau eraill gael eu colli yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf
- Mae bron un ym mhob chwe siop yn wag
- Ac eithrio Canol Llundain, mae nifer yr ymwelwyr â strydoedd mawr wedi gostwng bron 10% yn ystod y tair blynedd diwethaf
- Yn ogystal â'r ffaith bod manwerthwyr annibynnol yn cau, nid yw manwerthwyr annibynnol newydd yn ymuno â'r farchnad
- Roedd e-fasnach yn rhoi cyfrif am bron hanner y cynnydd a welwyd mewn gwerthiannau manwerthu yn y DU rhwng 2003 a 2010.
- Yn ystod y degawd diwethaf, mae cyfanswm yr arwynebedd llawr manwerthu y tu allan i drefi wedi cynyddu 30% tra bod cyfanswm yr arwynebedd llawr manwerthu mewn trefi wedi gostwng 14%
- Bwydydd yw'r farchnad fanwerthu bwysicaf yn y DU ac erbyn hyn mae archfarchnadoedd yn rhoi cyfrif am fwy na 97% o'r holl werthiannau bwyd
- Erbyn hyn mae'r archfarchnadoedd mawr yn aml yn gwerthu dillad, nwyddau'r cartref, deunydd ysgrifennu, llyfrau, blodau ac ati ac mae rhai hefyd yn dechrau cynnig gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion megis optegwyr, deintyddion a meddygfeydd.

At hynny, nododd Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ei adroddiad Adfywio Canol Trefi, fod enghreifftiau o strydoedd mawr gwan a bregus ledled Cymru lle y ceir eiddo gwag ac amgylcheddau siopa gwael. Mae 11.5% o'r adeiladau yng nghanol trefi yng Nghymru yn wag, sy'n uwch na chyfartaledd y DU, sef 11.1%.

Mae'r rhesymau dros y dirywiad yn ymwneud yn rhannol â'r dirwasgiad economaidd presennol a'r gostyngiad cysylltiedig mewn gwariant gan ddefnyddwyr, ond mae materion strwythurol hirdymor hefyd ar waith megis newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, yn amrywio o siopa ar y rhyngrwyd i gystadleuaeth gan siopau y tu allan i drefi. At hynny, dadleuodd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) fod Cymru o bosibl yn fwy bregus na rhannau eraill o'r DU, oherwydd ei sail economaidd is. Roedd y Grŵp hefyd yn ymwybodol bod y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn cynnal adolygiad o raglenni adfywio yng Nghymru. Gobeithir y bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn helpu i lywio'r adolygiad hwnnw.

### Cynigion ar gyfer pob un o'r tair tref

Yn ogystal â datblygu cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol, roedd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am ddatblygu syniadau ychwanegol i gynnal hyfywedd economaidd y Drenewydd,

Llandrindod ac Aberhonddu. Fel y dangoswyd uchod, mae nifer o adroddiadau diweddar wedi nodi'r rhesymau dros y newidiadau a welwyd yn ein strydoedd mawr. Ym Mhowys, mae hyn yn cynnwys canol trefi sy'n ei chael hi'n anodd oherwydd y dirywiad economaidd, cystadleuaeth gan archfarchnadoedd ar gyrion y dref, cystadleuaeth gan gwmnïau siopa ar y rhyngrwyd, cystadleuaeth gan ganolfannau mwy o faint y tu allan i'r sir a'r ffaith nad oes fawr ddim cydweithredu rhwng y busnesau bach sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r manwerthwyr yng nghanol y trefi. Mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn.

Mae'r Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu o fewn un o'r Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig, ond bydd y mesurau ychwanegol a argymhellir isod yn atgyfnerthu rôl a hyfywedd y trefi hyn ymhellach a byddant yn helpu i fynd i'r afael â'r math o broblemau a nodwyd yn yr adroddiadau hyn.

**Felly, mae'r Grŵp yn argymell yn benodol y dylai'r Gweinidog roi arian i sefydlu fforwm a arweinir gan fusnesau yng nghanol pob un o'r tair tref. Câi'r arian hwn ei ddefnyddio i gyflogi hyrwyddwr datblygu ym mhob tref, a fyddai'n helpu busnesau i ddod ynghyd i ddatblygu cynllun gweithredu arloesol ar gyfer canol eu tref a'i roi ar waith, gan weithio'n agos gyda Chyngor Sir Powys, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.**

Dim ond cyllid sbarduno a ddarperid: yn y tymor canolig i hirdymor, byddai'r fforymau yn hunangynhaliol a byddent yn cael eu hariannu gan y busnesau eu hunain. Roedd y Grŵp yn gryf o'r farn y byddai hyn yn sicrhau y câi'r fenter ei harwain a'i pherchenogi gan fusnesau yn y sector preifat – mewn gwirionedd, er mwyn iddi lwyddo, mae'n hanfodol sicrhau y bydd y fenter yn cael ei harwain gan fusnesau ac y byddant wedi ymrwymo iddi.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y Grŵp o'r farn na fyddai'r model Ardaloedd Gwella Busnes yn briodol i Bowys, am fod y fath fodel yn fwy addas i drefi mawr a dinasoedd, ac am fod busnesau bach yng nghanol trefi ym Mhowys eisoes o dan gryn bwysau oherwydd effeithiau ehangach y sefyllfa economaidd yn y DU a ledled y byd. Serch hynny mae gwersi pwysig i'w dysgu o broses yr Ardaloedd Gwella Busnes a disgwylid i'r prosiect ystyried y rhain. Felly, mae'r Grŵp yn gryf o'r farn y byddai'n rhaid i unrhyw gyfraniadau gan fusnesau i'r cynllun gael eu hariannu i raddau helaeth drwy leihau costau rywle arall – e.e. drwy ryddhad trethi i fusnesau o fewn ardaloedd craidd dynodedig.

Os bydd yn bosibl cytuno ar ateb ariannu priodol a'i roi ar waith, byddai ffocws cynllun pob tref, a fyddai'n debygol o barhau am 3-5 mlynedd, yn dibynnu ar anghenion a chyfleoedd pob tref a byddai'n defnyddio canfyddiadau gwaith cynharach fel y bo'n briodol. Mae'r egwyddor o sefydlu ardal ganolog graidd ar gyfer pob tref yn bwysig i'r prosiect hwn, am y bydd yn galluogi'r trefi i ddatblygu ardaloedd canolog, ffyniannus, bach a fyddai'n chwarae rôl hollbwysig o ran gwasanaethu'r ardal leol ehangach. Cytunid ar yr ardaloedd craidd hyn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer y prosiect ond gallent gwmpasu, er enghraifft, ardal ddynodedig sy'n bodoli eisoes megis yr ardal gadwraeth yn Llandrindod.

Er mwyn helpu i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau ar gyfer y tair tref, mae cryn dipyn o ymchwil flaenorol, ynghyd ag argymhellion cysylltiedig, ar gael. Fel y nodwyd uchod mae hyn yn cynnwys adroddiadau gan Mary Portas a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. At hynny, mae gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) wybodaeth bwysig hefyd y gellir ei defnyddio.

Mae'r Grŵp yn nodi'r argymhellion sy'n deilio o adroddiad Mary Portas ac adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n awgrymu y dylid eu hystyried fel rhan o'r fenter a arweinir gan fusnesau ym mhob un o'r tair tref. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- Diogelu canol trefi rhag effaith datblygiadau manwerthu y tu allan i drefi
- Hyrwyddo arfer da
- Defnyddio gwaith datblygu swyddfeydd a gweithleoedd i gynyddu nifer yr ymwelwyr â siopau
- Datblygu cynlluniau ar gyfer canol trefi
- Cefnogi hyrwyddwyr lleol a rhoi "Timau Trefi" ar waith
- Newid ardrethi busnes
- Dileu rheoliadau masnachu diangen
- Rhoi cynlluniau parcio a reolir am ddim ar waith
- Ei gwneud yn haws i newid defnydd ar gyfer eiddo allweddol

Yn dilyn y cais am dystiolaeth, a thrafodaethau'r Grŵp ei hun, mae syniadau eraill ar gyfer cefnogi canol trefi wedi'u trafod a dylid eu hystyried ymhellach fel rhan o unrhyw waith a wneir i ddatblygu prosiectau Mae'r syniadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Ystyried ymhellach ddull Ernesto Sirolli o ymdrin â chymorth i fusnesau / mentora busnesau mewn trefi gwledig a bach, a pha mor briodol ydyw i Ardaloedd Twf Lleol
- Y posibilrwydd o ddatblygu consortia prynu ar gyfer busnesau i'w galluogi i gynnig yn fwy effeithiol am gontractau
- Datblygu rhwydweithiau sector ymhellach, wedi'u seilio o bosibl ar y 'themâu' neu'r brand a nodwyd ar gyfer pob tref
- Defnyddio codau QR ar deithiau cerdded o amgylch trefi ac ar lwybrau lleol eraill (fel y'u datblygwyd yn Nhrefynwy)
- Datblygu consortia o westai a darparwyr twristiaeth, gan gynnig teithiau wedi'u trefnu'n rhannol i dwristiaid ac ymwelwyr
- Sefydlu meithrinfeydd o bosibl yng nghanol trefi i gefnogi manwerthwyr lleol
- Defnyddio neuaddau pentrefi i sefydlu 'siop' neu wasanaeth arall sydd ar agor neu ar gael unwaith yr wythnos
- Defnyddio atyniadau dros dro yng nghanol trefi, megis gwyliau'r gaeaf, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi
- Sefydlu rhagor o gaffis rhyngrwyd i'w defnyddio gan bobl leol ac ymwelwyr
- Parcio am ddim yng nghanol trefi, am gyfnod cyfyngedig o bosibl (e.e. am awr neu ddwy)
- Treialu mentrau i fynd i'r afael â phroblem eiddo manwerthu gwag yng nghanol trefi (e.e. siopau naid)

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o bell ffordd, ond yn lle hynny mae'n rhoi blas ar yr amrywiaeth eang o fentrau y dylid eu hystyried ymhellach fel rhan o unrhyw waith a wneir i ddatblygu prosiectau.

At hynny, mae'n rhaid ystyried y cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer cynllun peilot manwerthu a gynigiwyd gan Gyngor Sir Powys fel rhan o'i Strategaeth Adfywio. Bydd hyn yn cynnwys astudiaeth ddichonolrwydd i ystyried materion cyfredol sy'n effeithio ar strydoedd mawr lleol a datblygu achos busnes ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Caiff Grŵp Llywio ei sefydlu i lywio'r prosiect ac mae'n debygol o gefnogi'r cynnig i gynnal ymchwil gychwynnol yn y Drenewydd a Rhaeadr.

## Cynigion sy'n benodol i'r Drenewydd

Mae'r Drenewydd yn ganolfan leol bwysig ac yn un o'r prif ganolfannau ar gyfer siopa a masnach ym Mhowys. Fodd bynnag, mae'r dref yn wynebu cryn fygythiad ac mae llawer o drigolion wedi tynnu sylw at y dirywiad sylweddol a welwyd yn ddiweddar yn ffyniant ymddangosiadol y dref. Mae cystadleuaeth gref oddi wrth leoliadau eraill gan gynnwys y rhai dros y ffin yn gwaethygu'r dirywiad hwn. Y Drenewydd yw tref fwyaf y sir, gyda thros 12,000 o drigolion. Mae rhai problemau yn ymwneud ag amddifadedd yn y dref, fel y cydnabuwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2011. Mae'r dref yn enwog fel man geni'r diwygiwr cymdeithasol Robert Owen (a aned yn 1771) ac mae'r tŷ lle'r arferai fyw bellach yn amgueddfa.

Ymhlith rolau allweddol canol tref y Drenewydd mae'r canlynol:

- siopa cyfleustra (ceir un o archfarchnadoedd Iceland, siop Spar, siopau papurau newydd, siopau bara, siopau cig a siopau groser yng nghanol y dref)
- siopa cymharu (e.e. manwerthwyr dillad)
- gwasanaethau (swyddfa bost, banciau'r stryd fawr, caffis, bwytai, siopau cludfwyd, siopau trin gwallt, asiantau teithio a pharlyrau harddwch)
- adloniant (sinema, clwb nos, clwb bowlio a sawl tafarn a bar)
- cyfleusterau cymunedol (deintydd, swyddfeydd y cyngor, canolfan iechyd, canolfannau cyngor)

Cryfderau'r Drenewydd:

- Mae gan y Drenewydd rai manwerthwyr lluosog cenedlaethol.
- Mae'r canol yn darparu ystod resymol o gyfleusterau gwasanaethu.
- Mae gan y canol fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys darpariaeth rheilffordd ac mae'n darparu meysydd parcio i siopwyr.
- Y Drenewydd yw'r dref fwyaf ym Mhowys o ran poblogaeth.
- Mae gan Goleg Powys gampws sefydledig ar ymyl y dref sy'n denu cryn nifer o fyfyrwyr. Mae'r campws hwn yn gysylltiedig â Theatr Hafren, sydd â chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.
- Pwysigrwydd hanesyddol – e.e. man geni Robert Owen, Castell Dolforwyn gerllaw, Camlas Trefaldwyn ac ati.

Gwendidau'r Drenewydd:

- Mae ganddi fwy o arwynebedd llawr gwag na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r ffaith bod nifer o siopau wedi cau yn ddiweddar, ynghyd â nifer uchel ymddangosiadol y siopau elusennol, wedi creu'r canfyddiad bod yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig wedi gostwng mewn gwerth.
- Ceir crynhoad o unedau gwag yng Nghanolfan Ladywell.
- Mae canfyddiad cryf bod angen adnewyddu a gwella golwg rhai o'r adeiladau allweddol yng nghanol y dref – e.e. neuadd y farchnad a'r adeiladau gerllaw.
- Bu tagfeydd traffig yn y dref yn destun cryn drafodaeth. Mae'r briffordd sy'n mynd drwy'r dref (yr A483) dros ei chapasiti ac mae wedi bod felly ers sawl blwyddyn. Ystyrir bod y broblem hon wedi'i gwaethygu gan ddatblygiad diweddar Tesco a newidiadau

cysylltiedig i ffyrdd. Mae problemau tagfeydd yn arbennig o amlwg ar adegau prysur, yn enwedig ar ddydd Gwener ac yn ystod gwyliau. Mae ffordd osgoi i'r dref yn ymrwymiad yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ond mae trigolion a busnesau lleol yn amau na fydd y gwaith datblygu hwn yn mynd yn ei flaen fel y bwriadwyd

- Ystyrir bod yr hyn a gynigir gan y dref o ran hamdden ac economi'r nos o ansawdd cymharol wael.
- Nid oes gan y dref WiFi ac mae gwasanaethau 3G yn dameidiog. Nid oes unrhyw gaffi rhyngrwyd.
- Mae'r ddarpariaeth yng nghanol y dref o ran siopau bwyd a siopau groser ond yn addas at ddibenion prynu eitemau bwyd ychwanegol.

**Dyfodol y Drenewydd**

Nid yw'r Drenewydd yn ganolfan draddodiadol i dwristiaid ac mae ei heconomi yn canolbwyntio llawer mwy ar wasanaethau a diwydiant. Mae'r Coleg yn chwarae rôl bwysig yn y dref a cheir diwydiant gweithgynhyrchu sylweddol yn yr ardal o hyd. Fel y nodwyd uchod, mae'r Drenewydd hefyd wedi'i nodi ar hyn o bryd fel lleoliad posibl ar gyfer cynllun peilot manwerthu i'w gynnal gan Gyngor Sir Powys. Nodwyd bod Neuadd y Farchnad yn cynnig cyfle datblygu pwysig ar gyfer canol y dref, er na sicrhawyd unrhyw gyllid eto i fwrw ymlaen â chynllun ailddatblygu uchelgeisiol ar gyfer y safle.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwyluswr, a fydd yn ceisio datblygu rôl canol tref y Drenewydd ymhellach fel canolfan wasanaethu.** Gall hyn gynnwys cefnogaeth i ddatblygu economi'r nos ymhellach, sicrhau bod Wi-Fi ar gael ym mhob rhan o ganol y dref, mesurau penodol i gefnogi manwerthwyr a chymorth i ddiwydiannau gwasanaeth yng nghanol y dref. Câi union gwmpas y gefnogaeth ei bennu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynnig y prosiect

**Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai aelodau'r fath fenter, ynghyd â'r hyrwyddwr, ystyried yn benodol fodel Hwyluso Menter Ernesto Sirolli a ph'un a yw'n gymwys i'r Drenewydd, gan ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Sir Powys fel rhan o'i gynllun peilot manwerthu yng nghanol trefi.**

**Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau geisio sicrhau bod cynghreiriau cryfach yn cael eu creu rhwng busnesau a darparwyr Addysg Bellach, er mwyn sefydlu'r Drenewydd fel canolfan i ddysgu sy'n canolbwyntio ar fusnes a chanolfan ragoriaeth.** Câi union gwmpas y gefnogaeth ei bennu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig ar gyfer y Drenewydd.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd yn cael ei chwblhau yn unol â'r amserlen, gyda'r gwaith i ddechrau fel y bwriadwyd yn 2014.**

**Mae'r Grŵp o'r farn bod adfywio Neuadd y Farchnad yn sbardun pwysig i'r Drenewydd ac felly mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys ystyried y cyfleoedd sydd i fanteisio ar hyn, gan gynnwys opsiynau cyllido.**

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer y Drenewydd.**

## Cynigion sy'n benodol i Landrindod

Llandrindod yw tref sirol Powys a chanddi boblogaeth o ychydig dros 5,000. Mae'n dref hanesyddol ac mae ei ffurf bresennol yn dyddio'n bennaf o'r 19eg ganrif a'i rôl fel sba. Mae gan y dref nifer fawr o adeiladau ysblennydd sy'n dyddio o oes Fictoria, gan gynnwys sawl gwesty mawr, ac mae bellach yn ganolfan bwysig i lywodraeth leol. Mae tystiolaeth o amddifadedd, fel y cydnabuwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2011.

Ymhlith rolau allweddol canol tref Llandrindod mae'r canlynol:

- siopau cyfleustra (mae gan ganol y dref ddwy archfarchnad, siop Spar, siopau papurau newydd, siopau cig)
- gwasanaethau (swyddfa bost, banciau'r stryd fawr, caffis, bwytai, siopau cludfwyd, siopau trin gwallt, gwerthwr eiddo ac asiant teithio)
- adloniant (clwb nos a nifer o fariau mewn gwestai)
- cyfleusterau cymunedol (deintydd, swyddfeydd y cyngor, canolfan cyngor ar bopeth)

Cryfderau Llandrindod:

- Mae gan Landrindod nifer resymol o fanwerthwyr lluosog cenedlaethol
- Mae'r ddarpariaeth yng nghanol y dref o ran siopau bwyd a siopau groser yn addas i wneud y siopa bwyd mawr ac i brynu eitemau bwyd ychwanegol
- Mae nifer yr unedau gwag yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n awgrymu bod galw am unedau o hyd yng nghanol y dref
- Mae'r canol yn darparu meysydd parcio i siopwyr, er bod y prif faes parcio ar yr ochr draw i'r llinell reilffordd, i ffwrdd oddi wrth ganol y dref
- Amgylchedd tref traddodiadol sy'n lân ac yn meddu ar strydlun da. Mae ganddi etifeddiaeth gref a hanes fel sba ac amrywiaeth o adeiladau hanesyddol sy'n dyddio o oes Fictoria
- Oherwydd ei lleoliad canolog yng Nghymru, mae'r dref yn gwasanaethu fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac yn cynnig cyfleusterau cynadledda a chyfarfod ardderchog er mwyn hwyluso hyn
- O gwmpas y dref ceir amgylchedd naturiol o ansawdd uchel, sy'n cynnwys llyn Llandrindod
- Mae'r Ganolfan Fowlio Dan Do yn lleoliad o ansawdd uchel sydd â statws rhyngwladol

Gwendidau Llandrindod:

- Mae'r dref yn weddol anghysbell a chanddi boblogaeth fach
- Mae'r gwasanaeth rheilffordd yn wael
- Gall yr adeiladau hanesyddol mawr (y mae llawer ohonynt yn rhestredig) sy'n ffurfio llawer o ganol y dref fod yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal
- Mae angen adnewyddu nifer o adeiladau hanesyddol yng nghanol y dref, sy'n rhoi'r argraff bod y dref gyfan mewn cyflwr gwael

- Mae pryder ynghylch y nifer fawr o adeiladau sydd ar y farchnad ar hyn o bryd, y mae llawer ohonynt yn adeiladau hanesyddol sy'n ddrud i'w rhedeg a'u cynnal a'u cadw
- Cyflenwad cyfyngedig iawn o adeiladau modern, llai o faint yng nghanol y dref sydd ar gael i ddarparu ar gyfer gweithredwyr newydd sy'n gobeithio masnachu yn Llandrindod
- Nid oes digon o wasanaethau na chyfleusterau ategol ar gyfer canol tref o'r maint hwn

**Dyfodol Llandrindod**

Tyfodd Llandrindod fel canolfan i dwristiaid. At yr etifeddiaeth hanesyddol hon, mae bellach wedi ychwanegu rôl bwysig fel canolfan digwyddiadau a chynadledda i Gymru gyfan. Gellir adeiladu ymhellach ar y cyfuniad hwn o dwristiaeth a digwyddiadau yn y dyfodol, yn enwedig os ystyrir y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol o ansawdd uchel yn yr ardal o'i hamgylch (er enghraifft, Cwm Elan a Mynyddoedd Cambria).

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl Llandrindod ymhellach fel canolfan digwyddiadau a chynadledda.** Gallai hyn gynnwys digwyddiadau newydd (mae awgrymiadau wedi cynnwys gŵyl yr olwyn ar gyfer beiciau modur a cheir clasurol, gwyliau cerddoriaeth, digwyddiadau bowlio, a chyfleoedd hamdden ac ati) tra'n adeiladu ar y farchnad gynadledda bresennol. Mae'r Grŵp yn cydnabod bod angen sicrhau cyllid er mwyn cadarnhau bod y fath ddigwyddiadau yn gynaliadwy a dylid ystyried hyn ymhellach.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau hefyd geisio gwella rôl Llandrindod fel canolfan i dwristiaeth treftadaeth, gan adeiladu ar etifeddiaeth y sba a'r amgylchedd naturiol eithriadol gerllaw.** Unwaith eto, câi union gwmpas y fath brosiect ei bennu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynnig manwl ar gyfer Llandrindod.

**Yn gysylltiedig â'r uchod, mae'r Grŵp hefyd yn argymell y gallai'r fenter a arweinir gan fusnesau hefyd edrych ar y potensial i ddenu rhagor o'r 'bunt lwyd' i'r dref.** Gallai hyn gynnwys pecynnau twristiaeth a ddatblygwyd yn benodol i ddiwallu anghenion pobl hŷn, neu drwy hyrwyddo'r dref fel lleoliad ymddeol.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer Llandrindod.**

**Cynigion sy'n benodol i Aberhonddu**

Aberhonddu yw'r drydedd dref fwyaf ym Mhowys, a chanddi ychydig o dan 8,000 o drigolion. Mae amlygrwydd Aberhonddu o fewn y Parc Cenedlaethol yn golygu ei bod yn dref allweddol ac yn gyrchfan bwysig i ymwelwyr a gellir atgyfnerthu'r rôl hon ymhellach. Mae lleoliad cymharol y dref mewn perthynas â chanolfannau manwerthu mawr megis Caerdydd, Abertawe, Henffordd, y Fenni a Merthyr Tudful yn golygu bod angen i Aberhonddu gynnig darpariaeth fanwerthu unigryw o safon uwch er mwyn creu cymuned gynaliadwy a denu ymwelwyr i aros yno am gyfnod byr a chyfnod hir.

Cryfderau Aberhonddu:

- Cysylltiadau cryf â de-ddwyrain Cymru, sy'n golygu bod cymudo o Aberhonddu i Gaerdydd a Merthyr Tudful yn opsiwn ymarferol
- Canolfan hamdden fawr a ddefnyddir yn helaeth
- Amgylchedd naturiol o ansawdd uchel, yn enwedig yn ardal gyfagos Bannau Brycheiniog, a chyfle mawr i ddatblygu twristiaeth awyr agored ymhellach
- Amrywiaeth o atyniadau o ansawdd uchel megis y theatr, yr amgueddfa filwrol, amgueddfa Aberhonddu, yr eglwys gadeiriol, a'r gamlas / afon / promenâd
- Treflun o ansawdd uchel
- Canolfan ffyniannus ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol, gan gynnwys digwyddiadau o bwys rhyngwladol megis Gŵyl Jazz Aberhonddu
- Nifer o adeiladau hanesyddol a deniadol yng nghanol y dref
- Ysgol gyhoeddus adnabyddus

Gwendidau Aberhonddu

- Ystyrir bod cyfyngiadau cryf iawn ar gynllunio a thwf economaidd
- Nid yw economi'r nos, sy'n hanfodol i dwristiaid, wedi'i datblygu ddigon
- Mae strydlun canol y dref wedi'i wella, ond mewn rhai ardaloedd, mae'n rhaid i draffig a cherddwyr fynd heibio yn agos iawn i'w gilydd mewn lle cyfyng
- Mae rhenti ac ardrethi wedi'u pennu ar lefelau uchel (e.e. gall ardrethi siopau fod hyd at ddwywaith yn fwy na'r rhai yn y Gelli Gandryll gerllaw)
- Mae'r datblygiad manwerthu newydd ym Merthyr Tudful yn ddigon agos i ddenu siopwyr o Aberhonddu

**Dyfodol Aberhonddu**

Mae'n amlwg bod lle i ddatblygu'r dref ymhellach fel cyrchfan i ymwelwyr, gan adeiladu'n benodol ar frand Bannau Brycheiniog. At hynny, mae lle i wella darpariaeth fanwerthu'r dref ymhellach, gan adeiladu ar fasnachwyr siopau bwtîg a siopau arbenigol bach, gan gynnwys siopau dillad bwtîg, siopau yn gwerthu nwyddau'r cartref o ansawdd uchel, siopau celfyddydau a chrefftau annibynnol a siopau twristiaeth awyr agored. Mae'r Grŵp hefyd yn ymwybodol o fenter Cyngor Sir Powys i adfywio Aberhonddu, sy'n edrych yn benodol ar eiddo gwag yn y dref, ac mae'n deall bod yn rhaid ystyried hyn wrth ddatblygu cynigion.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl Aberhonddu fel canolfan i dwristiaid ymhellach, gan adeiladu'n benodol ar gyfleoedd ar gyfer twristiaeth awyr agored, yr hyn a gynigir o ran treftadaeth (e.e. amgueddfeydd) a'r hyn a gynigir o ran y celfyddydau a diwylliant (e.e. Gŵyl Jazz Aberhonddu).** Câi union gwmpas y fath brosiect ei bennu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynnig manwl ar gyfer Aberhonddu.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau ystyried yr opsiynau i ddatblygu rôl Aberhonddu fel lleoliad siopa ymhellach, gan adeiladu'n benodol ar yr hyn sydd gan y dref i'w gynnig o ran siopau arbenigol / siopau bwtîg.** Unwaith eto, câi union gwmpas y fath brosiect ei bennu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynnig manwl ar gyfer Aberhonddu.

**Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer Aberhonddu.**

## 5. Casgliadau

Roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys yn gyfrifol am ystyried model amgen yn lle Ardaloedd Menter, a fyddai'n fwy addas i economi wledig Powys. At hynny, gofynnwyd i'r Grŵp ystyried y materion penodol sy'n effeithio ar hyfywedd economaidd tair tref allweddol, sef y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu.

Er mwyn llunio'r adroddiad hwn, mae'r Grŵp wedi casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid, wedi clywed tystiolaeth gan siaradwyr arbenigol, ac wedi ystyried amrywiaeth eang o adroddiadau ac astudiaethau perthnasol. O ganlyniad i'r ymchwil hon, mae'r Grŵp wedi dod i'r casgliad bod llawer o blaid y cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol mewn sir wledig megis Powys. Dylai'r Ardaloedd Twf Lleol hyn ganolbwyntio ar ganolfannau poblogaeth a gwasanaethau allweddol er mwyn creu swyddi a sicrhau twf a fydd o fudd i *bob* rhan o'r sir. Mae'r dull hwn o weithredu yn ategu'r Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n datblygu ar gyfer Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r Grŵp wedi amlinellu nifer o ysgogiadau polisi a dulliau datblygu y gellid eu defnyddio mewn Ardaloedd Twf Lleol. Mae'r Grŵp hefyd wedi nodi 'thema' neu ffocws posibl ar gyfer canol pob un o'r tair tref allweddol.

Mae'r Grŵp nawr yn cyflwyno ei gynnig i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ei ystyried. Mae'r Grŵp yn awgrymu y gall rhai o'r argymhellion hefyd fod yn gymwys i rannau eraill o Gymru. Am fod angen gweithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu trefi ledled Powys, mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar weithgareddau y gellir eu datblygu yn y byrdymor i dymor canolig er mwyn cael yr effaith fwyaf ar y sir.

## Atodiad 1

### Argymhellion

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad Un: mae'r Grŵp Gorffen a Gorchwyl o'r farn bod y cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol yn berthnasol i Bowys fel model amgen yn lle Ardaloedd Menter er mwyn helpu i hybu a chynnal swyddi a thwf yn y sir. Felly, mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried bod y canlynol yn allweddol mewn Ardaloedd Twf Lleol.** | |
| **1A** | **Bod Ardaloedd Twf Lleol Powys yn cael eu sefydlu yn y lleoliadau canlynol:**<br>○ **Dyffryn Hafren (y Trallwng / y Drenewydd / Llanidloes)**<br>○ **Rhaeadr / Llandrindod / Llanfair-ym-Muallt**<br>○ **Aberhonddu / Bronllys / Talgarth**<br>○ **Ystradgynlais** |
| **1B** | **Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Ardaloedd Twf Lleol yn cael gwasanaeth band eang cynhwysfawr fel mater o flaenoriaeth fel rhan o gam cyntaf y broses o gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf** |
| **1C** | **Y dylai'r gwaith o ddarparu band eang hefyd gael ei gysylltu â'r gwaith o ddarparu WiFi ym mhob un o'r trefi yn yr Ardaloedd Twf Lleol** |
| **1CH** | **Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant telathrebu i ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwell seilwaith ar gyfer teleffoni symudol yn y sir** |
| **1D** | **Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff y prosiectau seilwaith allweddol, fel y'u nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (gan gynnwys ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd, y gwasanaeth bob awr ar Lein y Cambrian, a gwelliannau ffordd ar yr A458 rhwng Buttington Cross a Wollaston Cross) eu datblygu fel mater o flaenoriaeth** |
| **1DD** | **Y dylai'r sector cyhoeddus hwyluso busnesau sy'n bodoli eisoes ym Mhowys sydd am adleoli i safleoedd mwy priodol a'u rhoi ar y trywydd cyflym a'u cefnogi, tra'n cefnogi busnesau sy'n dod i mewn y mae angen safleoedd arnynt** |
| **1E** | **Y dylai Cyngor Sir Powys edrych ar yr is-ddeddfwriaeth ar gyfer Gorchmynion Datblygu Lleol, er mwyn nodi pa mor briodol ydynt ar gyfer trefi, safleoedd ac ardaloedd a ddewiswyd yn yr Ardaloedd Twf Lleol** |
| **1F** | **Y dylai Cyngor Sir Powys roi sylw priodol i argymhellion y Grŵp hwn a defnyddio'r adroddiad hwn i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu** |

| | |
|---|---|
| **1FF** | **Yn sgil adolygiadau o brosesau cynllunio sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, y dylai'r Gweinidog geisio cydgysylltu ag adrannau eraill ynghylch y ffordd y mae'r system gynllunio yn gweithredu ledled y sir, gan roi sylw penodol i'r modd y mae'r broses gynllunio yn annog ac yn galluogi twf economaidd a chreu swyddi a, lle bynnag y bo modd, geisio symleiddio prosesau a chefnogi gwaith datblygu priodol** |
| **1G** | **Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhoi rhaglen Menter Treftadaeth Treflun ar waith a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r prif drefi mewn Ardaloedd Twf Lleol** |
| **NG** | **Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r cymorth angenrheidiol i ddarparwyr Addysg Bellach yn y sir er mwyn sicrhau y gellir darparu cyrsiau priodol, gan gynnwys prentisiaethau, sy'n cysylltu ag anghenion busnesau lleol, i fyfyrwyr ym Mhowys, gan ystyried natur wledig y sir a nifer fach y myfyrwyr sydd yn aml yn dilyn cyrsiau** |
| **1H** | **Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i hyfforddiant sgiliau a chymorth i ddatblygu'r gweithlu ar gyfer busnesau mewn Ardaloedd Twf Lleol** |
| **1I** | **Y dylai darparwyr AB a Llywodraeth Cymru roi sylw ar frys i sicrhau cyfathrebu cliriach â busnesau mewn Ardaloedd Twf Lleol er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cymorth sydd ar gael** |
| **1J** | **Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff unrhyw gynnig neu gynllun ad-dalu ardrethi (fel y'i nodir yn argymhelliad 10 yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes) ei ymestyn i gwmpasu'r Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig ym Mhowys** |
| **1LL** | **Y dylai Llywodraeth Cymru ailasesu ardrethi busnes / gwerth ardrethol yn yr Ardaloedd Twf Lleol, yn seiliedig ar y sefyllfa economaidd bresennol** |
| **1M** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau yn ystyried pwysigrwydd mentora, cynllunio ar gyfer olyniaeth, marchnata, hyrwyddo ac, yn benodol, uwchraddio TGCh ar gyfer busnesau bach yn y sir** |
| **1N** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y rhoddir cymorth sy'n diwallu'n benodol anghenion microfusnesau a busnesau bach, am mai dyma'r prif fathau o fusnesau a geir ledled Powys** |
| **1O** | **Bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod natur wledig y rhanbarth a'i ficrofusnesau amrywiol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o fis Ionawr 2013 ymlaen** |
| **1P** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys wneud rhagor o waith i ystyried opsiynau ar gyfer denu benthycwyr eraill i'r farchnad er mwyn hwyluso'r broses o gael gafael ar gyllid, yn enwedig ar gyfer microfusnesau a busnesau bach yn y sir** |

| | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **1PH** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y dylai unrhyw gyllid a gaiff ei fenthyca drwy systemau sy'n bodoli eisoes yn y sector cyhoeddus gael ei flaenoriaethu ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol (er na ddylid ei gyfyngu iddynt yn unig)** |
| **1R** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau bod y rhanbarth yn cael ei farchnata mewn ffordd ddynamig fel lleoliad ar gyfer datblygu busnesau newydd a brodorol** |
| **1RH** | **Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda chyflenwyr ynni er mwyn sicrhau y caiff y seilwaith ynni yn y sir ei wella'n briodol, tra'n parhau i helpu i ddatblygu amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy priodol sy'n gydnaws ag amgylchedd naturiol y sir** |
| **1S** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys ystyried sut y gellir gwneud y defnydd gorau o'r cylch nesaf o arian gan yr UE (2014 i 2020) er mwyn helpu i gyflawni'r argymhellion yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn** |
| **1T** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau yr ystyrir y dynodiad a roddir i Bowys gan yr UE yn y dyfodol ar ôl 2020, gan ystyried yr anghenion ar hyn o bryd a CMC isel** |
| **1TH** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y rhoddir ystyriaeth arbennig i'r sir yn yr adolygiad arfaethedig o'r map o ardaloedd a gynorthwyir** |
| **1U** | **Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y manteisir ar y cyfle i adeiladu ar ansawdd yr ardal a datblygu'r sector twristiaeth ymhellach** |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad Dau: mae'r Grŵp Gorffen a Gorchwyl yn cydnabod bod canol llawer o drefi yn wynebu bygythiad sylweddol ac yr ystyrir eu bod yn dirywio. Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu mentrau a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys penodi hyrwyddwyr, ym mhob un o'r tair tref, sef y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu, er mwyn llunio cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a phartneriaid eraill.** | |
| **Argymhellion ategol (y Drenewydd):** | |
| **2A** | **Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl canol tref y Drenewydd ymhellach fel canolfan wasanaethu** |
| **2B** | **Y dylai aelodau'r fath fenter, ynghyd â'r hyrwyddwr, ystyried yn benodol fodel Hwyluso Menter Ernesto Sirolli a ph'un a yw'n gymwys i'r Drenewydd, gan ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Sir Powys fel rhan o'i gynllun peilot manwerthu yng nghanol trefi** |
| **2C** | **Y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau geisio sicrhau bod cynghreiriau cryfach yn cael eu creu rhwng busnesau a darparwyr Addysg Bellach, er mwyn sefydlu'r Drenewydd fel canolfan i ddysgu sy'n canolbwyntio ar fusnes a chanolfan ragoriaeth** |
| **2CH** | **Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd yn cael ei chwblhau yn unol â'r amserlen, gyda'r gwaith i ddechrau fel y bwriadwyd yn 2014** |
| **2D** | **Mae adfywio Neuadd y Farchnad yn gatalydd pwysig i'r Drenewydd, ac mae angen i Cyngor Powys a Llywodraeth Cymru archwilio cyfleodd i fanteisio ar hyn, yn gynnwys opsiynau ariannu** |
| **2DD** | **Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer y Drenewydd** |
| **Argymhellion Ategol (Llandrindod):** | |
| **2E** | **Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl Llandrindod ymhellach fel canolfan digwyddiadau a chynadledda** |
| **2F** | **Y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau hefyd geisio gwella rôl Llandrindod fel canolfan i dwristiaeth treftadaeth, gan adeiladu ar etifeddiaeth y sba a'r amgylchedd naturiol eithriadol gerllaw** |

| | |
|---|---|
| **2Ff** | **Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor addas yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer Llandrindod** |
| **Argymhellion ategol (Aberhonddu):** | |
| **2G** | **Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl Aberhonddu fel canolfan i dwristiaid ymhellach, gan adeiladu'n benodol ar gyfleoedd ar gyfer twristiaeth awyr agored, yr hyn a gynigir o ran treftadaeth (e.e. amgueddfeydd) a'r hyn a gynigir o ran y celfyddydau a diwylliant (e.e. Gŵyl Jazz Aberhonddu)** |
| **2NG** | **Y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau ystyried yr opsiynau i ddatblygu rôl Aberhonddu fel lleoliad siopa ymhellach, gan adeiladu'n benodol ar yr hyn sydd gan y dref i'w gynnig o ran siopau arbenigol / siopau bwtîg** |
| **2H** | **Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer Aberhonddu** |

## Atodiad 2

### Cyfranwyr at y cais am dystiolaeth

- Richard Hilditch, Border Hardcore Co. Ltd.
- Y Cyngh. Michael Williams
- Robert Taylor, Contact Attachments Ltd.
- Phil Rennett, Concord Hydraulics
- Stuart Owen, Gareth Pugh Steel Framed Buildings
- Andrew Cross
- John R. Lewis, Research and Marketing Solutions / Alert Activities Ltd
- Simon Williams, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Nick Evans, EvaBuild Ltd
- Tony Pettitt, ESDM Ltd
- Peter Morris, Swyddog Cynllunio yn gweithio i Gyngor Sir Powys
- Paul Sinnadurai
- Cyngor Cymuned Pencraig
- Arwyn Watkins, Cambrian Training Co.
- Mike Sivier
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog x 2
- S. Greenow
- John Morgan, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Andy Bull, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy
- Kevin Harrington, Antur Teifi
- Y Cyngh. Gary Price
- Cyngor Cymuned Llangynidr
- Cyngor Cymuned Caersws
- Twristiaeth Bannau Brycheiniog
- Y Cyngh. Graham Brown, Deiliad y Portffolio Adfywio
- Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn
- Y Cyngh. Tom Turner
- Angela Moore a Tony Haskins, The Simmering Cauldron
- Cyngor Cymuned yr Ystog
- Doug Hughes, I Love Newtown
- Stephanie Woods, Quickstep Environmental
- Cyngor Tref Aberhonddu
- Cyngor Tref y Trallwng
- Lee Price, Partneriaeth Adfywhau Powys
- Phil Freeman, Fforwm Celf Powys
- Roger Williams AS
- Susanna Thompson, Grŵp Gweithredu Lleol Powys
- Sue Mabberley, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Sue Green, Siambr Masnach a Thwristiaeth Llandrindod
- Mike O'Carroll, Gwesty a Bwyty'r Three Wells
- Russell George AC
- Simon Thomas AC
- Bruce Whitear, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

- Colin Evans, Fferm Antur a Chanolfan Farchogaeth Antur
- John Day
- William Powell AC
- Y Cyngh. Matthew Dorrance
- Cyngor Cymuned Llandrinio ac Arddlin

## Atodiad 3

### Adroddiadau perthnasol diweddar

Defnyddiwyd yr adroddiadau canlynol er mwyn rhoi cefndir a chyd-destun i waith y Grŵp:

- Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, 2010 i 2015
- Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, 2010
- Strategaeth Datblygu Economaidd Aberhonddu, Hyder Consulting, Chwefror 2008
- Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes, Mehefin 2011
- Canllawiau ar Ddefnyddio Gorchymyn Datblygu Lleol, Llywodraeth Cymru, 2012
- Cynllun Datblygu Lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cynllun Datblygu Lleol, Cyngor Sir Powys
- Adroddiad Mary Portas ar y Stryd Fawr, Rhagfyr 2011
- Arolwg o Aelodau, Ffederasiwn Busnesau Bach, 2012
- Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau, Ionawr 2012
- Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, 2009
- Strategaeth Adfywio Powys, Powell Dobson Urbanists, 2011
- Astudiaeth Fanwerthu Powys, Nathaniel Lichfield & Partners, 2011 (DRAFFT)
- Adfywio Canol Trefi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2012
- Astudiaeth Gweledigaeth Economaidd Dyffryn Hafren, DTZ Consultants, Gorffennaf 2008
- Cynllun Busnes Rhaglen Adfywio Strategol Dyffryn Hafren, 2009
- Strategies for Sustainable Small Town and Rural Development, Ernesto Sirolli, 2007
- What Would Maggie Do?, y Ganolfan Dinasoedd, 2011